------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 23 Hydref 2014**

Amser:
**09.15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk


## Agenda

**09.15 – 09.30 – Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod**

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (09.30 – 11.00) (Tudalennau 1 – 40)

Llywodraeth Cymru
CYPE(4)-25-14 – Papur 1

Lesley Griffiths AC – y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Kate Cassidy – Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi
Martin Swain – Dirprwy Gyrarwyddwr, Pobl Ifanc a Theuluoedd

### 3 Papurau i'w nodi:

**Blaenraglen Waith y Pwyllgor** (Tudalennau 41 – 42)
CYPE(4)-25-14 – Papur preifat 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitemau 5 a 6

## 5 Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed - Ystyried adroddiad drafft (11.00 - 11.45) (Tudalennau 43 - 75)

CYPE(4)-25-14 - Papur preifat 3

## 6 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) - Ystyried y materion allweddol (11.45 - 12.30) (Tudalennau 76 - 90)

CYPE(4)-25-14 - Papur preifat 4

## 7 Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (13.30 - 14.45) (Tudalennau 91 - 150)

Llywodraeth Cymru
CYPE(4)-25-14 - Papur 5

Huw Lewis AC - y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Julie James AC - y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Jo-Anne Daniels - Cyfarwyddwr Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Huw Morris - Cyfarwyddwr Grŵp SAUDGO

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
## Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015 – 2016 – y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
## CYPE(4)-25-14 – Papur 1

### 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynigion a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 30 Medi 2014 ar gyfer y rhaglen Plant a Phobl Ifanc yn y dyfodol. Mae'r gyllideb ar gyfer y maes hwn yn rhan o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi.

### 2. Cefndir

O'i gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd ar adeg Cyllideb Derfynol 2014-15 mae cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cynyddu £20.54 miliwn yn 2015-16 i £737.44 miliwn.

Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £11.41 miliwn, i £342.074 miliwn, yn y Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau sef symiau a drosglwyddwyd yn ôl i Gronfeydd wrth Gefn. Mae'r gyllideb Cyfalaf hefyd wedi gweld cynnydd net o £32 miliwn, i £395.4 miliwn, ar ôl dyrannu £2 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn canolog i gefnogi datblygiad safleoedd Sipsiwn-Teithwyr newydd a chynnal a chadw safleoedd Sipsiwn-Teithwyr sydd eisoes yn bodoli, a £5 miliwn ar gyfer y Cynllun Benthyciad Gwella Cartrefi.

Mae'r tablau ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol Cymunedau a Threchu Tlodi.

**Tablau Ariannol Cryno:**

| **Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi** | 2014-15 Cyllideb atodol £000 | 2015-16 Cynlluniau Dangosol Cyllideb Derfynol wedi ei hailnodi £000 | 2015-16 Newidiadau £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau | 353,933 | 353,484 | -11,410 | 342,074 |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 386,820 | 363,420 | 32,000 | 395,420 |
| Cyllideb Sylfaenol y Terfyn Gwariant Adrannol | 740,753 | 716,904 | 20,590 | 737,494 |

O fewn Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi, mae’r effaith benodol ar y gyllideb Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd wedi ei chrynhoi yn y tabl ar wahân hwn.

| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | 2014-15 Cyllideb atodol £000 | 2015-16 Cynlluniau Dangosol Cyllideb Derfynol wedi ei hailnodi £000 | 2015-16 Newidiadau £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau | 125,613 | 127,413 | -969 | 126,444 |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 8,000 | 2,000 | 4,950 | 6,950 |
| Cyllideb Sylfaenol y Terfyn Gwariant Adrannol | 133,613 | 129,413 | 3,981 | 133,394 |

## 3. Trosolwg o’r Gyllideb

Nod gyffredinol yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yw uno’r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a’i phartneriaid yn ei wneud i drechu tlodi a sicrhau ansawdd bywyd mwy teg, mwy cynaliadwy a gwell i gymunedau, teuluoedd ac unigolion, ar hyn o bryd ac yn yr hirdymor.

Mae’r portffolio yn gweithio i atal tlodi, helpu i godi pobl allan o dlodi a helpu i ddatblygu cymunedau cydnerth lle y mae teuluoedd ac unigolion yn gallu cael gafael ar y cymorth y mae ei angen arnynt.

Rydym yn cynorthwyo plant i gael y cychwyn gorau mewn bywyd ac yn cefnogi teuluoedd. Ein nod yw sicrhau y bodlonir un o’r anghenion lles sylfaenol – cael cartref da - yn enwedig i bobl na fyddent fel arall yn cael eu cynnwys yn y farchnad dai. Rydym yn gweithio gyda chymunedau yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ac yn buddsoddi ynddynt i wella eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Rydym yn cymryd camau i ymwreiddio cydraddoldeb, gan gynnwys hawliau plant a phobl ifanc, ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a’r sector cyhoeddus; ac yn cefnogi’r trydydd sector i chwarae ei ran wrth gyflawni’r canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt ac yn dymuno eu gweld yng Nghymru.

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol sy’n adlewyrchu’r Rhaglen Lywodraethu, ac yn cynorthwyo i’w rhoi ar waith, a chaiff llawer ohonynt effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc:

- cefnogi teuluoedd a phlant, yn enwedig trwy gynlluniau Dechrau’n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf;
- trechu tlodi a hybu cydnerthedd cymunedau gan gynnwys Cymunedau’n Gyntaf;
- darparu cartrefi fforddiadwy, diogel a chynnes i blant a theuluoedd trwy ein Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol;
- gwella ansawdd y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru trwy ein rhaglen Lwfans Atgyweiriadau Mawr;
- adfywio ein trefi a’n cymunedau trwy Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid;

- darparu cymorth trwy ein rhaglen Cefnogi Pobl i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach;
- lleddfu effaith y diwygiadau i'r gyfundrefn les;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol ac Undebau Credyd;
- sicrhau bod mwy o ddarpariaeth chwarae a gofal plant fforddiadwy o ansawdd da ar gael;
- hybu hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc;
- hybu cydraddoldeb a chynhwysiant;
- cefnogi datblygiad y Trydydd Sector a gwella ei berthynas strategol â'r Llywodraeth.

## 4. Rhaglen Lywodraethu

Wrth ddrafftio ein cynigion ar gyfer cyllideb 2015-16, rydym wedi mabwysiadu dull sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau, gan sicrhau bod ein dyraniadau ariannol arfaethedig yn adlewyrchu ein *Blaenoriaethau ar gyfer Cymru*, gyda phwyslais ar drechu tlodi trwy weithio ar y cyd â'n partneriaid i wella dyfodol ein cymunedau ledled Cymru. Mae'n ataliol o ran natur, gan ystyried y tymor hir a gweithio gyda chymunedau.

Yn benodol, mae Camau Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn cefnogi nifer o raglenni allweddol gan gynnwys Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo plant a'u teuluoedd. Yn 2015-16 byddwn yn buddsoddi £126.4 miliwn (gwariant refeniw). Mae manylion y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 1.

**Dechrau'n Deg**

**I Gefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig**, yn 2015-16 byddwn yn parhau i ddarparu £76.9 miliwn o gymorth cyllidebol i Ddechrau'n Deg, ein rhaglen Blynyddoedd Cynnar blaenllaw. Hefyd, rydym yn rhoi £4.95 miliwn ychwanegol i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg i'w chodi i £6.95 miliwn. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cefnogi Dechrau'n Deg wrth iddo ehangu i ddarparu cymorth i ddwywaith cymaint o blant ag y mae'n eu helpu ar hyn o bryd, o 18,000 i 36,000. Trwy ymestyn y rhaglen gallwn sicrhau, erbyn mis Mawrth 2016, y bydd cymorth Dechrau'n Deg o fudd i'r 25% o blant Cymru o dan 4 oed a'u teuluoedd sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. O ddiwedd 2013-14 rydym eisoes yn cyrraedd dros 31,000 o blant a'u teuluoedd.

Mae'n un o ymrwymiadau **'Pump am Ddyfodol Tecach' y Rhaglen Lywodraethu** i ddyblu nifer y plant sy'n cael budd o raglen **Dechrau'n Deg,** ac mae'n fuddsoddiad sydd wedi ei dargedu i gynorthwyo plant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae tystiolaeth ryngwladol yn cefnogi'r ffaith bod hwn yn ddull effeithiol o wella cyfleoedd bywyd ein plant mwyaf difreintiedig.

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen allweddol ar gyfer trechu tlodi, a'i nod yw sicrhau bod plant Dechrau'n Deg yn iach ac yn ffynnu; yn abl ac yn ymdopi; ac yn cyrraedd eu potensial. Cyflawnir hyn drwy ddarparu pedwar hawl Dechrau'n Deg i blant dan bedair oed a'u teuluoedd: ymweliadau iechyd gwell, cymorth rhianta, cymorth ar gyfer datblygiad iaith cynnar (yn bennaf ar ffurf rhaglenni iaith a chwarae) a gofal plant rhan-amser o ansawdd da am ddim ar gyfer plant 2-3 oed.

Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd ail Ddatganiad Ystadegol Dechrau'n Deg sy'n darparu ystadegau allweddol o'r rhaglen Dechrau'n Deg.  Mae'r Datganiad yn dangos bod 31,322 o blant wedi cael budd o'r rhaglen yn 2013-14, sydd rhyw un rhan o dair yn fwy na'r ffigur a gafodd fudd y llynedd (23,579) ac mae'n llwyddiant sylweddol o ystyried yr heriau a gyflwynir yn sgil ehangu'r rhaglen.  Mae hefyd yn rhagori ar y nifer targed o blant (27,657) a oedd i fod i gael budd o'r rhaglen ar y cam hwn o'r broses ehangu.

Mae teuluoedd wedi derbyn cymorth gwell, a hynny'n gynt, o ganlyniad i'r rhaglen ac mae cyswllt ag ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill Dechrau'n Deg wedi arwain at sicrhau bod rhieni'n fwy gwybodus ac yn fwy hyderus.  Mae data gwerthuso'n dangos tystiolaeth o'r holl ganlyniadau uniongyrchol a ddisgwylir o'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys datblygiad iaith, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chanlyniadau gwybyddol i blant. Roedd canfyddiadau o'r ymchwil ansoddol hefyd yn dangos effeithiau ar rieni o ran ymddygiad rhianta, iechyd a lles a'u canfyddiadau o'r ardal leol.  Gwelir tystiolaeth hefyd bod rhai rhieni i blant yn y Rhaglen yn elwa ar gyfleoedd sydd ar gael i ddysgu sgiliau newydd a gwella eu gobeithion o ran cyflogaeth.

Mae mwy o ymgysylltiad â'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn bwysig er mwyn datblygu'r effeithiau tymor canolig a hirdymor y disgwylir i'r rhaglen eu cyflawni yn y dyfodol.

Mae mwy na 70 o brosiectau cyfalaf 'byw' ar waith ar hyn o bryd, a rhoddir mwy ar waith pan fydd y cyllid cyfalaf ychwanegol wedi ei gadarnhau.  Bydd bron i 90% o'r prosiectau cyfalaf 'byw' yn cael eu cwblhau yn y chwe mis nesaf, a bydd gweddill y prosiectau'n cael eu cwblhau yn 2015-16. Mae'r gwaith yn cynorthwyo i wella'r ardal, ac yn aml yn darparu'r unig gyfleusterau sydd ar gael i deuluoedd.

Mae Dechrau'n Deg hefyd yn cefnogi **Twf a Swyddi Cynaliadwy** trwy ddarparu gofal plant rhan-amser o ansawdd da am ddim i blant 2-3 oed.  Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i rieni ddilyn hyfforddiant a chael swydd.  Mae'r buddsoddiad yn y rhaglen hefyd yn cynorthwyo i greu swyddi yn y diwydiant adeiladu, yn ogystal ag yn y sectorau gofal plant ac iechyd a'r sectorau cymorth teuluol proffesiynol eraill.  Amcangyfrifir y bydd tua 740 o swyddi'n cael eu creu trwy ymestyn Dechrau'n Deg.

Cynhelir rhaglen barhaus o weithgarwch gwerthuso ar gyfer Dechrau'n Deg. Bydd gweithgarwch yn y dyfodol yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r cyfresi data presennol i archwilio effaith y rhaglen dros amser a bydd hefyd yn cynnwys gwaith astudiaethau achos gyda theuluoedd.

**Teuluoedd yn Gyntaf**

Mae hon yn rhaglen arloesol sy'n annog yr holl awdurdodau lleol i ddatblygu systemau a chymorth amlasiantaeth effeithiol i deuluoedd, gyda phwyslais eglur ar **waith ataliol ac ymyriad cynnar** i deuluoedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn **tlodi**.  Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod tymor hwn y Cynulliad a byddwn yn buddsoddi **£43.7 miliwn yn 2015-16**.  Mae hwn yn ostyngiad o £1.0 miliwn ar sail cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16. Erbyn diwedd tymor hwn y Cynulliad byddwn wedi neilltuo **£183.9 miliwn** i Deuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r rhaglen yn ymateb allweddol i **Strategaeth Tlodi Plant** Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae cynlluniau darparu lleol yn blaenoriaethu camau a chymorth i ostwng nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith; gwella sgiliau rhieni a gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel; a gostwng yr anghydraddoldeb sy'n bodoli o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd ar gyfer plant sy'n dod o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae prosiectau yn cefnogi amrywiaeth o fentrau gan gynnwys targedu pobl ifanc 16-19 oed sydd wedi ymddieithrio o addysg a hyfforddiant a rhoi cymorth personol i'w cynorthwyo i ddod yn fwy cyflogadwy.

Cynhelir rhaglen barhaus o weithgarwch gwerthuso ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd cam olaf ein gwerthusiad terfynol o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gwblhau erbyn canol 2015 a bydd hefyd yn ystyried a yw'r rhaglen wedi darparu gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau atal ac ymyriad cynnar i deuluoedd.

Dwy nodwedd allweddol o'r rhaglen yw'r gofyniad i awdurdodau lleol ddatblygu prosesau asesu ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio mwy a mwy ar deuluoedd drwy Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd; a darparu cymorth sydd wedi ei gydgysylltu'n well drwy'r modelau Tîm o Amgylch y Teulu. Mae Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn asesu cryfderau ac anghenion y teuluoedd mewn sawl maes ac fe'i defnyddir i baratoi cynllun wedi ei deilwra o ymyriadau i gynorthwyo teuluoedd i oresgyn y problemau y maent yn eu hwynebu. Mae Tîm o Amgylch y Teulu yn fodel sy'n uno amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol i weithio gyda'r teulu er mwyn eu helpu i ymdrin â'r gwahanol heriau y maent yn eu hwynebu. Mae Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 2 Teuluoedd yn Gyntaf yn dangos bod modelau Tîm o Amgylch y Teulu bellach yn weithredol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Elfen arall allweddol o'r rhaglen yw swm a glustnodwyd i'w wario ar ddulliau arloesol o wella gwasanaethau i deuluoedd â phlant anabl a gofalwyr ifanc. Disgwylir i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer y teuluoedd hyn yn eu holl wasanaethau, ond caiff y cyllid hwn ei glustnodi i sicrhau y darperir ar gyfer eu hanghenion penodol. Yn ôl Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 2 Teuluoedd yn Gyntaf, mae gwasanaethau i deuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol i Deuluoedd yn Gyntaf. Mae'r rhaglen wedi ariannu gwasanaethau newydd, ac wedi arwain at integreiddio a chydgysylltu gwasanaethau'n well. Mae ymarferwyr bellach yn fwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddarpariaeth anabledd sydd ar gael, a gwerth integreiddio gwasanaethau anabledd â darpariaeth prif ffrwd a darpariaethau eraill.

**Mae cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig** yn hanfodol i amcanion Teuluoedd yn Gyntaf fel rhaglen ar gyfer Cymru gyfan. Mae plant yn gwneud yn well pan fyddant yn byw mewn cartref diogel o ansawdd da, a phan fydd ganddynt berthynas agos, gadarnhaol a diogel â'u mam, tad neu oedolyn allweddol. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw darparu cymorth priodol i deuluoedd i sicrhau eu bod yn hunangynhaliol ac yn gydnerth. Rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau uniongyrchol sy'n rhoi'r gallu i blant ddatblygu ac yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i rieni ymdopi â sefyllfaoedd teuluol anodd, eu helpu i ymdrin â materion a achoswyd gan dlodi ac i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r cyngor priodol pan fydd eu hangen arnynt. Bydd prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, er enghraifft, yn nodi teuluoedd sydd yn y perygl mwyaf o

barhau mewn tlodi hirdymor ac yn targedu cymorth cynnar a pharhaus i'r teulu cyfan er mwyn gwella sgiliau, datblygu dyheadau a gwella lefelau incwm yr aelwyd.

Rydym yn casglu amrywiaeth gynhwysfawr o ddata ar gyfer rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae ein data diweddaraf yn dangos bod 5,063 o deuluoedd wedi llenwi asesiad Fframwaith Asesu Teulu ar y Cyd a bod 3,387 o deuluoedd wedi llofnodi Cynllun Gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu rhwng 1 Ebrill 2013 a 30 Mehefin 2014. Mae ein data hefyd yn ein hysbysu ynglŷn â chwmpas y rhaglen y tu hwnt i elfennau Fframwaith Asesu Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu, er enghraifft, yn 2013-14 defnyddiwyd 200 o brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf 313,826 o weithiau gan unigolion. Gallai hyn gynnwys unigolion sy'n defnyddio mwy nag un o brosiectau, a/neu sy'n defnyddio prosiect fwy nag unwaith. Mae'r ffigur hwn yn dangos yn effeithiol pa mor sylweddol yw cwmpas y rhaglen.

Er gwaethaf lleihad yn y gyllideb, disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu elfennau allweddol y rhaglen. Bydd peth o'r arian yn cael ei arbed trwy ail-drafod y costau gwerthuso. Mae profiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd yn dangos bod alldro refeniw fel arfer tua 98% o'r gyllideb. Y nod yn 2015-16 fydd cynnal lefel gyfredol y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd hyn yn cynnwys elfen o or-raglennu er mwyn gwario 100% o'r cyllid sydd ar gael.

**Gofal Plant a Chwarae**

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys £0.05m o gyllid ychwanegol i gyflawni astudiaeth dichonolrwydd yn 2015-16 i gyfrannu at gynllun tywys gofal plant am myfyrwyr Addysg Bellach yn 2016-17. Bydd gweddill y gyllideb yn cael ei chynnal ar £2.7 miliwn yn 2015-16 o ystyried ei phwysigrwydd fel sbardun polisi sylweddol o ran twf a swyddi ac o ran trechu tlodi. Mae gwerthusiadau olynol wedi dod i'r casgliad ei bod yn hanfodol sicrhau bod gofal plant fforddiadwy o ansawdd da ar gael i gefnogi pobl y mae angen iddynt weithio, neu gael sgiliau er mwyn eu galluogi i weithio.

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu**, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cydnabod ei bod yn allweddol datblygu gofal plant fforddiadwy, hygyrch o ansawdd da er mwyn sicrhau bod rhieni'n gallu dilyn hyfforddiant a chael gwaith. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd o dan y cylch nesaf o raglenni Ewropeaidd (2014-2020) i gymryd camau yn y maes hwn fel rhan o'n nod i hybu cyfiawnder cymdeithasol a threchu tlodi.

Mae'r gyllideb **Cymorth ar gyfer Hawliau Plant** £48,000 yn llai yn 2015-16. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchiad o'r gwaith sydd wedi dod i ben yn naturiol, yn bennaf oherwydd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Hawliau Plant sydd bellach wedi ei gwblhau.

Bydd cyllideb **Comisiynydd Plant Cymru** yn cael ei chynnal ar £1.7 miliwn yn 2015-16. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli gan y Comisiynydd ac y gall barhau â'i bwyslais penodol ar drechu tlodi a chynghori cyrff llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar y mater hwn.

Mae cyllideb MEIC – y llinell gymorth eiriolaeth a chyngor i blant a phobl ifanc o fewn y gyllideb **Eiriolaeth** – wedi ei diogelu yn 2015/16 gan ei fod yn wasanaeth rheng flaen i blant a phobl ifanc.

## 5. Gwariant ataliol

Mae gwariant ataliol yn parhau i fod yn thema allweddol yn y portffolio hwn. Mae'n ganolog i'n rhaglenni trechu tlodi, yn benodol y rhaglen Dechrau'n Deg a'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a'n dull o ymdrin â'r anghydraddoldebau a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig. Oherwydd natur y rhaglenni hyn, maent wedi eu hanelu'n gyfan gwbl at ymyriad cynnar ac atal problemau, a'r modd y mae gwasanaethau'n cydweithio ac yn cydweithredu i ddarparu ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai un o'r dulliau mwyaf cynaliadwy ac effeithiol yn ariannol o drechu tlodi yw buddsoddi mewn ymyriad cynnar, a'i fod yn arwain at well canlyniadau ar gyfer y plentyn unigol neu'r teulu yn ogystal â lleihau'r angen am ymyriadau drud yn y blynyddoedd dilynol. Mewn gwirionedd felly, dim ond yn y tymor hirach y gellir asesu gwerth am arian o raglenni ymyriad cynnar.  Fodd bynnag, mae tystiolaeth ryngwladol eang yn cefnogi'r syniad o ymyrryd yn gynnar. Yn fwy eang, mae'r safbwynt hirdymor hwn yn gyson â'r dull datblygiad cynaliadwy sydd wedi ei ymwreiddio yn y Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, â'i phwyslais amlwg ar **waith ataliol ac ymyriad cynnar** i deuluoedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn **tlodi,** wedi ei chynllunio i helpu pobl o oedran gweithio gael swydd, ac i helpu plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gan ddod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau a gwasanaethau statudol eraill o ganlyniad.

Bydd Dechrau'n Deg, a'i nod o wella cyfleoedd bywyd plant o **rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru,** yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar yr economi, nid yn unig oherwydd y canlyniadau i blant, ond hefyd o ran y **gwariant ataliol** a'r gostyngiad cysylltiedig yn yr angen am wasanaethau mwy dwys a drud y byddai angen eu darparu fel arall.  Gall y rhaglen hefyd gefnogi gwell cydlyniad cymdeithasol a datblygiad cymunedol, yn enwedig pan wneir cysylltiadau â chymorth arall fel sydd ar gael trwy Gymunedau yn Gyntaf.

Bydd gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell ar gael i fwy o bobl yn sgil ehangu'r rhaglen, gan gefnogi ein blaenoriaeth o wella **Iechyd a Lles** drwy **fuddsoddiad ataliol** mewn ymyriadau cynnar.  Ceir cymorth ychwanegol i'r gwaith o godi safonau iechyd trwy raglenni rhianta Dechrau'n Deg, megis 'bwyta'n iach' sydd â'r nod o leihau gordewdra, a thrwy gymorth wedi ei dargedu i sicrhau bod mwy o blant yn cael eu himiwneiddio.

Mae swyddogaeth y Comisiynydd Plant o ran craffu ar y llywodraeth a sicrhau bod deddfwriaeth, polisïau a phenderfyniadau yn darparu'r canlyniadau gorau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd eto'n rhoi pwyslais mawr ar **gamau ataliol**. Yn yr un modd, mae ein dyraniadau cyllid ar gyfer Eiriolaeth a Chefnogi Hawliau Plant yn rhoi pwyslais cryf ar **wariant ataliol** - gan hysbysu, sicrhau a grymuso plant i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau, a datrys problemau heb y straen sy'n deillio o'r angen i gael eu cyfeirio'n ddiangen at wasanaethau lefel uwch.

Hefyd, mae'r gyllideb ar gyfer MEIC - y llinell gymorth eiriolaeth a chyngor i blant a phobl ifanc - wedi ei diogelu. Mae MEIC yn darparu ymyriad sy'n golygu, mewn llawer o achosion, nad yw sefyllfaoedd yn gwaethygu i blant a phobl ifanc, ac o ganlyniad maent yn cadw eu lleoedd yn eu cartrefi.

## 6. Ystyriaethau trawsbynciol

Wrth ystyried datblygiad cynaliadwy ym mhroses y gyllideb o fewn Cymunedau a Threchu Tlodi, mae penderfyniadau wedi eu gwneud sy'n adlewyrchu pum egwyddor allweddol datblygiad cynaliadwy:

- *Cydweithredu* – cydnabod na all unrhyw sefydliad ar ei ben ei hun ddatrys yr heriau 'cynaliadwyedd' y mae Cymru'n eu hwynebu. Trwy barhau i gefnogi cyngor ar ddatblygiad cynaliadwy i bob sector, gallwn gynorthwyo i nodi cyfleoedd i gydweithredu. Byddwn hefyd yn parhau i fynd ar ôl cyfleoedd i gydweithredu ym mhob rhan o'r Llywodraeth a chyda phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'n ymestyn i'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf amdanynt.
- *Integreiddio* - mae gan ein rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau'n Gyntaf ganlyniadau cyffredin sy'n hybu ffyniant a chyflogaeth, dysgu a chyflawni potensial, ac iechyd a lles. Maent hefyd yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu cyfuno mewn Fframwaith Canlyniadau Cyffredin, sydd â'r nod o sicrhau bod y dulliau gweithredu'n cyd-fynd yn well ym mhob un o'r tair rhaglen.
- *Hirdymor* – buddsoddi mewn cymorth blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd, gan fod y dystiolaeth yn dangos y bydd gan hyn fwy o fuddion yn yr hirdymor.
- *Atal* – ceisio ymdrin â phroblemau wrth eu ffynhonnell, yn hytrach nag ymdrin â chanlyniadau'r problemau hyn yn hwyrach. Mae gwaith ataliol ac ymyriad cynnar yn ddull sydd o fudd i bobl a chymunedau ond hefyd â'r potensial i arbed arian yn yr hirdymor. Mae'r dull hwn wrth wraidd ein rhaglenni trechu tlodi, yn enwedig Teuluoedd yn Gyntaf, a'n dull o ymdrin ag anghydraddoldebau a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig.
- *Canolbwyntio ar drigolion / ymgysylltu* – cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: er enghraifft mae cyfranogiad cymunedol yn nodwedd allweddol o raglen Cymunedau'n Gyntaf.

Mae'n hanfodol blaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y rhai hynny sydd dan yr anfantais fwyaf ac sydd fwyaf agored i niwed, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer yr ymdrechion hyn. Yn benodol, mae camau i drechu tlodi a chamau i leihau anghydraddoldeb yn cyd-fynd â'i gilydd ond hefyd yn ategu ei gilydd.

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl â nodweddion gwarchodedig penodol mewn mwy o berygl o fyw ar aelwydydd incwm isel, a bydd mentrau trechu tlodi felly yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny. Rydym hefyd yn gwybod bod grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl anabl, unig rieni (sy'n bennaf yn fenywod), a phobl iau nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant mewn mwy o berygl o fyw ar aelwydydd incwm isel. Yn benodol, mae pobl anabl wedi eu cynrychioli'n anghymesur ar aelwydydd economaidd anweithgar ac aelwydydd heb waith. Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i "asio" Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Llywodraeth Cymru ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a chefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny â nodweddion gwarchodedig penodol. Rhoddir mwy o bwyslais eisoes ar fonitro canlyniadau'r grwpiau hynny sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi a'r rhai hynny â nodweddion gwarchodedig yn y rhaglenni yn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.

## 7. Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion y dyraniadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

Rhoddir crynodeb o ddyraniadau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ar lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 1. Mae hwn yn rhoi manylion:

- dyraniadau 2015-16;
- dyraniadau 2014-15 – mae alldro rhagamcanol ar gyfer 2014-15, ar yr adeg hon o'r flwyddyn ariannol, yn cyd-fynd â'r gyllideb; a
- ffigurau alldro terfynol 2013-14.

Sylwer, nid yw cylch hwn y Gyllideb Ddrafft yn ymestyn y tu hwnt i un flwyddyn ariannol 2015-16. Felly, nid oes ffigyrau dangosol ar gael ar gyfer 2016-17 ar yr adeg hon.

Mae'r newidiadau sylweddol o gymharu â'r ffigyrau dangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015/16 ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi fel a ganlyn:

| **Camau** | **Teitl Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2015-16 Cynlluniau Dangosol Cyllideb Derfynol wedi ei hailnodi £** | **2015-16 Newidiadau £** | **2015-16 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd £** |
|---|---|---:|---:|---:|
| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | **Teuluoedd yn Gyntaf** | 44,608 | -956 | 43,652 |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi (Cyfalaf)** | **Dechrau'n Deg** | 2,000 | 4,950 | 6,950 |
| **Cefnogi Pobl** | **Grant Cefnogi Pobl** | 130,218 | -5,809 | 124,409 |

- <u>Gostyngiad o £0.96 miliwn i Deuluoedd yn Gyntaf</u>

Gwelir yr effaith mewn dau faes. Gostyngiad mewn gwariant ar werthuso - bydd angen ail-drafod costau gwerthuso. Yn ail, gostyngiad 'amser real' o £2 filiwn yn y gyllideb sydd ar gael i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn parhau i allu darparu elfennau allweddol y rhaglen fel yr esboniwyd uchod.

- <u>Cynnydd o £4.95 miliwn mewn cyfalaf Dechrau'n Deg</u>

Wedi ei drosglwyddo o fewn y Prif Grŵp Gwariant i gefnogi'r rhaglen Dechrau'n Deg wrth iddo ymestyn i ddarparu cymorth i ddwywaith cymaint o blant, o 18,000 i 36,000. Bydd y cyllid ychwanegol yn darparu digon o gyllid i bob awdurdod lleol ddarparu pob un o bedair elfen y rhaglen, yn ogystal â sicrhau bod cyfleusterau gofal plant o ansawdd da, safleoedd ar gyfer

gwaith grŵp, er enghraifft rhaglen rianta, a swyddfeydd ar gyfer timau Dechrau'n Deg ar gael yn yr ardal leol.

- Gostyngiad o £5.8 miliwn i'r rhaglen Cefnogi Pobl

Bydd y gostyngiad hwn yn effeithio ar bob rhan o'r gymuned y mae angen ein cymorth arnynt drwy'r cynllun hwn. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid darparu i sicrhau ein bod yn gallu lliniaru effaith y gostyngiad hwn drwy ddulliau gwell o weithio.

## 8. Hawliau Plant

Mae Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a rhaid iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'r ddyletswydd pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau cyllidebol.

Ym mis Mai 2014 diweddarodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Hawliau Plant sy'n nodi'r trefniadau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru fod wedi eu sefydlu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn sefydlu prosesau cadarn i sicrhau bod y Gweinidogion yn gweithredu'n unol â'u dyletswydd o dan adran 1 o'r Mesur.

Fodd bynnag, nid yw Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn orfodol (y ddyletswydd yw rhoi sylw dyledus) ond mae hwn yn adnodd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddatblygu i gynorthwyo i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

Defnyddiwyd Dull Asesu Effaith Integredig ar gyfer cyllideb 2015-16, gan roi ystyriaeth i'r holl ddyletswyddau a'r asesiadau effaith gorfodol. Mae hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi eu hystyried fel rhan o'r Dull Asesu Effaith Integredig hwn.

Mae'r dull hwn wedi ei gryfhau eto trwy gyflwyno Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb a'i waith i wella'r broses Asesu Effaith trwy ddull integredig; a'r gwaith y mae wedi ei wneud i gynorthwyo i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb.

Yn ogystal, mae'r gyllideb Cefnogaeth i Hawliau Plant o fewn y Cam Gweithredu ar Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd wedi'i dargedu'n benodol ar ddatblygu hawliau plant a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, cefnogi Gweinidogion a swyddogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd ar Weinidogion i roi 'sylw dyledus' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn cynnwys:

- cyllid ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Plant,
- cyllid ar gyfer Meic, y Llinell Gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc
- dyraniad penodol yn y gyllideb i ddatblygu'r argymhellion a gyflwynwyd yn adolygiad Meic
- cefnogi ac ariannu gwaith y Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth a'r Grŵp Arbenigol Pobl Ifanc ar Eiriolaeth;
- darparu'r Grŵp Arbenigol Pobl Ifanc ar Eiriolaeth - cynhadledd/cyfarfod estynedig;
- parhau â'r contract i ddarparu menter a fydd yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac yn hybu eiriolaeth broffesiynol annibynnol ymhlith gwasanaethau cymdeithasol a

gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda grwpiau o blant a phobl ifanc ledled Cymru sy'n agored i niwed;

- elfen gyfranogiad Grant Datblygiad Plant a Theuluoedd ar gyfer hybu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Cyfranogiad ac Eiriolaeth;
- parhau â'r contract ar gyfer gweithwyr hyfforddi proffesiynol sydd â swyddogaeth hyfforddi eu hunain mewn hawliau plant, cyfranogiad ac eiriolaeth; gan gynnwys darlithwyr, hyfforddwyr gwaith cymdeithasol, athrawon, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr iechyd proffesiynol, heddlu ac ati; a
- pharhau â'r gwaith o hybu hawliau plant yn unol ag Adran 5 o 'Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 trwy ddefnyddio (a datblygu) adnoddau hybu presennol gan gynnwys tudalennau gwefan Llywodraeth Cymru, gwefan Gwneud Pethau yn Iawn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Cyfranogiad ac Eiriolaeth, y Porth Cyfranogiad, y pecyn hyfforddi ar-lein, Gweithdrefn Gwynion Plant a Phobl Ifanc, yr Ap a'r clip ar YouTube.

## 9. Meysydd penodol

*Dechrau'n Deg*

Cynhaliodd swyddogion ymchwil i weld pa mor ymarferol fyddai casglu gwybodaeth a fyddai'n dangos faint o blant a oedd wedi cael budd o bob un o bedair elfen y rhaglen. Daethant i'r casgliad na fyddai'n bosibl casglu'r wybodaeth hon heb roi baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a hynny ag ychydig iawn o fudd o ran dealltwriaeth ychwanegol o weithrediad llwyddiannus y rhaglen. Rydym yn casglu llawer iawn o wybodaeth ar hyn o bryd sy'n cynorthwyo i reoli'r rhaglen, ac mae llawer ohoni hefyd yn cyfrannu at Ddatganiad Ystadegol Dechrau'n Deg. Mae gennym system bellach i wella'r rhaglen yn barhaus, trwy ein proses Rheoli Cyfrifon, ac rydym wedi cytuno ar Gynllun Gwella Ansawdd gyda phob awdurdod lleol. Mae Rheolwyr Cyfrif yn defnyddio'r wybodaeth reoli yr ydym yn ei chasglu i gyfrannu at y broses wella hon. Hefyd, mae gwerthusiadau Dechrau'n Deg yn cyfrannu tuag at ein hasesiad o werth am arian y rhaglen.

Mae gwerthusiad Dechrau'n Deg wedi dangos yn eglur bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol. O ganlyniad rydym wedi ymrwymo'r cyllid angenrheidiol er mwyn cwblhau'r broses o ehangu'r rhaglen.

*Grant Trefniadaethol Plant a Theuluoedd*

Nod lefel uchel y Grant Cyflawni dros Blant a Theuluoedd yw lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi.

Mae dulliau ataliol ac ymyriad cynnar yn agweddau allweddol ar Greu Cymunedau Cryf ac mae ein rhaglenni blaenllaw Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn ymatebion cadarnhaol, amlasiantaeth i'r agenda tlodi ac i wella canlyniadau. Dyna yw pwyslais y **Grant Cyflawni dros Blant a Theuluoedd** sydd â'r bwriad o gefnogi'r agenda trechu tlodi trwy atgyfnerthu gwaith ein rhaglenni allweddol yn ogystal â gwaith rhaglenni gofal plant, hawliau plant, chwarae a chyfranogiad a weithredir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant yn ategol ac mae'n ychwanegu gwerth at y rhaglenni a reolir gan Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Llywodraeth Cymru mewn pum maes blaenoriaeth penodol, sef:

- **Gofal Plant:** Yn gynyddol, mae gofal plant fforddiadwy o ansawdd da ar gael i deuluoedd ledled Cymru
- **Chwarae:** Mae mwy o gyfleoedd i blant yng Nghymru chwarae.
- **Cefnogi Teuluoedd - Hysbysu:** mae teuluoedd yn cael eu hysbysu'n briodol am y cymorth ariannol ac ymarferol sydd ar gael ar eu cyfer.
- **Cefnogi Teuluoedd- Ymgysylltu:** mae teuluoedd 'na chlywir eu llais yn aml' yn ymgysylltu ac yn defnyddio'r rhaglenni, y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer.
- **Datblygu Polisïau a Strategaethau:** Cymorth ar gyfer datblygu polisïau a strategaethau ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Cynyddu'r cyfleoedd systemig i Blant a Phobl Ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a sicrhau y **clywir eu lleisiau**.

Mae'r grant yn cefnogi teuluoedd mewn dulliau ymarferol, mesuradwy, gyda phwyslais penodol ar ddatblygu cryfder a gallu teuluoedd i fod yn llai dibynnol ar ymyriadau parhaus.

Mae'r holl gynigion llwyddiannus wedi gallu dangos uchelgais, gwerth am arian a mesurau amlwg i'w cyflawni sy'n cyfrannu at y blaenoriaethau. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys meini prawf priodol ar gyfer mesur perfformiad y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i asesu sut mae pethau'n mynd.
Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus weithio'n agos gyda sefydliadau eraill sydd wedi derbyn Grant Cyflawni dros Blant a Theuluoedd er mwyn darparu'r budd mwyaf.

**<u>Prosiectau a Ariennir</u>**

**Mudiad Meithrin** – Mae'r prosiect CWLWM wedi derbyn £4,324,396 dros gyfnod o 3 blynedd i ddarparu atebion arloesol i greu cyfleoedd gofal plant a chwarae hyblyg a fydd yn bodloni anghenion rhieni a theuluoedd. Bydd y grant yn ariannu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau gan gynnwys lleoedd gofal plant, hyfforddiant rhianta ac ymchwil i faterion gofal plant a chwarae.

**Groundwork Cymru** – Mae'r Prosiect Chwarae Cynaliadwy wedi derbyn £1,410,028 i gynyddu profiadau chwarae i blant yn yr awyr agored, gwella eu hansawdd a'u gwneud yn fwy hygyrch, mewn ardaloedd sy'n dioddef o lefelau uchel o amddifadedd. Disgwylir i dros 11,500 o blant gymryd rhan mewn gweithgareddau prosiectau chwarae fel rhan o raglen waith y prosiect.

**ProMo Cymru** – Mae'r prosiect Teuluoedd Gwybodus wedi derbyn £1,532,391 dros gyfnod o dair blynedd i ddatblygu gwasanaeth gwybodaeth ddwyieithog ar-lein i deuluoedd. Bydd y gwasanaeth arfaethedig yn darparu gwybodaeth trwy amrywiaeth o lwybrau digidol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a bydd yn bosibl cael gafael ar y wybodaeth ar ddyfeisiau symudol ac offer technoleg gwybodaeth mwy confensiynol yn y cartref.

**Tros Gynnal Plant** – Mae Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd trwy Ddulliau Adferol Cymru Gyfan wedi derbyn £882,000 dros gyfnod o dair blynedd i gynghori a darparu hyfforddiant ar y fethodoleg Dulliau Adferol. Bydd dros 550 o rieni ac ymarferwyr yn dilyn hyfforddiant yn ystod cyfnod y prosiect.

**Plant yng Nghymru** – Mae'r prosiect Trechu Tlodi a Hybu Hawliau Plant wedi derbyn £1,874,527 dros gyfnod o dair blynedd i greu canolfan ragoriaeth i sicrhau y clywir "Llais y Plentyn". Bydd y prosiect yn hybu hawliau plant, yn codi ymwybyddiaeth, yn sefydlu ac yn hybu arfer gorau, yn hysbysu ac yn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan, ac yn darparu cyngor ar sail tystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

**Cyfranogiad**

Mae'r cynnig gan Blant yng Nghymru yn canolbwyntio ar hybu hawliau plant a chyfranogiad plant, pobl ifanc a phobl sy'n gweithio gyda nhw a'u cynrychioli. Byddant yn defnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes, megis fforymau ieuenctid sirol, cynghorau ysgol a rhwydweithiau cyfranogi eraill, i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Byddant wedyn yn dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygiad polisïau ac yn cynorthwyo gweithlu sydd â gwell gwybodaeth ac sydd wedi ymgysylltu'n well i roi Polisïau Llywodraeth Cymru ar waith.

*Tlodi Plant*

Dim ond ym mis Gorffennaf eleni y cyhoeddwyd gwerthusiad Strategaeth Tlodi Plant 2011 felly nid ydym wedi gallu ei ystyried yn fanwl mewn penderfyniadau ar gyllideb ddrafft 2015/16. Fodd bynnag bydd y gwersi o'r gwerthusiad yn parhau i hysbysu ein dull gwaith, fel a nodwyd yn eglur yn y Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd; a hefyd yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan wahanol Adrannau.
Mae tystiolaeth o werthusiad Strategaeth Tlodi Plant 2011 yn awgrymu bod y dull yr ydym yn ei arddel yng Nghymru yn debygol o wneud cyfraniad pwysig at drechu tlodi, ond bod hyn yn debygol o ddigwydd yn yr hirdymor. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod gennym Strategaeth Tlodi Plant yng Nghymru sy'n parhau i chwilio am gyfleoedd i wella amgylchiadau a chanlyniadau teuluoedd incwm isel ar hyn o bryd, yn ogystal â chyfleoedd i sicrhau ein bod yn atal plant sy'n cael eu magu mewn tlodi ar hyn o bryd rhag dod yn aelwydydd incwm isel yn y dyfodol.

Mae'r gwerthusiad yn awgrymu nad yw graddfa'r rhaglenni'n ddigonol ar hyn o bryd i gael effaith ar y lefel ofynnol, o ran trechu tlodi. Mae'n hanfodol felly ein bod yn canfod mwy o gyfleoedd a fydd yn ein galluogi i sicrhau newid ar y lefelau angenrheidiol. Er enghraifft, mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn cydnabod swyddogaeth tai ac adfywiad, prosesau caffael cyhoeddus a dull gwaith sy'n canolbwyntio ar fuddion cymunedol, o ran creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.

Roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar 20 o raglenni sy'n cyfrannu at drechu tlodi plant yng Nghymru. Dewiswyd y rhaglenni hyn i'w cynnwys yn y gwerthusiad yn 2012/13. Ers hynny, sefydlwyd polisïau a rhaglenni newydd i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi lansio, ers hynny, "Ailysgrifennu'r Dyfodol" sy'n nodi dull Llywodraeth Cymru o dorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau hefyd wedi cyhoeddi £20 miliwn ar gyfer Her Ysgolion Cymru - rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion.

Rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig sy'n ein hymrwymo i barhau i fyfyrio ar ganfyddiadau'r gwerthusiad – er mwyn sicrhau y gall y polisïau

a’r rhaglenni yr ydym yn eu datblygu i drechu tlodi gael yr effaith fwyaf bosibl a’r budd mwyaf posibl i’r bobl hynny y mae angen cymorth arnynt.  Mae’n hanfodol bod adrannau’n parhau i ddatblygu ac addasu’r gwaith y maent yn ei wneud, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael, i ymdrin â thlodi plant yn uniongyrchol.  Mae’r strategaeth ddiwygiedig hefyd yn cynnwys ymrwymiad i helpu pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy trwy gymorth uniongyrchol i fusnesau; hwyluso twf swyddi yn y sector preifat trwy wella’r amgylchedd busnes cyffredinol; a helpu i greu’r amgylchiadau a’r fframwaith priodol er mwyn i’r sector preifat ffynnu.

Ni allwn anwybyddu’r ffaith nad yw’r holl ysgogiadau ar gael i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar lefelau tlodi. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw rhai o’r ysgogiadau mwyaf pwysig - fel newidiadau i’r system dreth a budd-daliadau.  Mae’r ymchwil annibynnol diweddaraf gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn nodi bod newidiadau treth a budd-daliadau, hyd yn oed o’u hystyried gyda’i gilydd, yn debygol o olygu colled flynyddol o ryw £720 miliwn i Gymru yn 2015/16.  Y golled wythnosol gyfartalog fesul aelwyd yw tua £11.  Mae effeithiau’r diwygiadau i’r gyfundrefn les yn sylweddol a phobl dlawd Cymru fydd yn parhau i ddioddef yr ergyd waethaf.  Er hyn, mae llawer y gall Llywodraeth Cymru ei wneud - yn enwedig o ran gwella cyrhaeddiad addysgol, cynyddu sgiliau, lleihau nifer y bobl sydd heb waith, a gwella canlyniadau iechyd.

*Comisiynydd Plant Cymru*

Mae cyllideb Comisiynydd Plant Cymru wedi ei diogelu ar gyfer 2015/16.  Bydd yr adolygiad annibynnol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2014 pan fydd yr adolygwr yn cyflwyno ei ganfyddiadau i’r Gweinidog.  Nid ydym am ragdybio canfyddiadau’r adolygiad hwn ac felly mae’n rhy gynnar i’w hadlewyrchu yn nyraniadau’r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015/16.

*Eiriolaeth*

Mae gwerthusiad llawn o MEIC wedi ei gwblhau ac mae’r canfyddiadau’n gadarnhaol iawn. Canfuwyd y dylai MEIC barhau i dderbyn cyllid gan fod digon o dystiolaeth yn dangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a phobl ifanc.  Mae contract presennol MEIC yn dod i ben ym mis Mawrth 2015.  Mae argymhellion y gwerthusiad wedi eu cynnwys yn y fanyleb newydd sydd wedi ei chynnig i dendr agored.
Mae cyllideb MEIC felly wedi ei diogelu yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen sy’n effeithiol ac y profwyd eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

MEIC yw’r agwedd berthnasol ar bortffolio’r Gweinidog ynglŷn ag eiriolaeth a hybu eiriolaeth fel dull o gefnogi plant a phobl ifanc.

Wrth werthuso MEIC, aeth y sefydliad a gafodd y contract ati i gyfweld rhanddeiliaid gan gynnwys gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, sefydliadau anllywodraethol, awdurdodau lleol a swyddfa’r Comisiynydd Plant.  Cynhaliwyd 5 o grwpiau ffocws ledled Cymru hefyd gyda phlant a phobl ifanc.  Roedd canlyniad y gwerthusiad yn gadarnhaol iawn ac er bod yr argymhellion wedi eu cynnwys yn y fanyleb newydd, mae’r gyllideb wedi ei diogelu i adlewyrchu canlyniad y gwerthusiad a’r dystiolaeth bod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

*Polisi Chwarae a Gofal Plant*

Rydym yn cynyddu'r gyllideb Gofal Plant a Chwarae yn 2015-16 sy'n dangos ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn cymorth gofal plant a chefnogi datblygiad y sector gofal plant, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu dilyn hyfforddiant neu gael cyflogaeth a hefyd bod plant yn cael budd o brofiadau gofal plant o ansawdd da.

**Leslie Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

| | Y GYLLIDEB PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD (sy'n rhan o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi) | ATODIAD 1 |
|---|---|---|

**CYLLIDEB ADNODDAU – Terfyn Gwariant Adrannol**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Camau Gweithredu | Teitl y Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2013-14 Alldro | 2014-15 Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | 2015-16 Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol | 2015-16 Newidiadau | 2015-16 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | Y Comisiynydd Plant | 1,715 | 1,715 | 1,715 | 0 | 1,715 |
| | | Teuluoedd yn Gyntaf | 45,779 | 46,908 | 44,608 | -956 | 43,652 |
| | | Dechrau'n Deg | 60,535 | 72,094 | 76,894 | 0 | 76,894 |
| | | Strategaethau Gofal Plant a Chwarae | 4,074 | 3,016 | 2,716 | 50 | 2,716 |
| | | Cefnogi Hawliau Plant | 573 | 805 | 405 | -48 | 357 |
| | | Eiriolaeth | 904 | 1,075 | 1,075 | -15 | 1,060 |
| | | **Cyfanswm Maes Rhaglenni Gwariant/Camau Gweithredu** | **113,580** | **125,613** | **127,413** | **-969** | **126,444** |
| | **Cyfanswm Adnoddau** | | **113,580** | **125,613** | **127,413** | **-969** | **126,444** |

**CYLLIDEB GYFALAF – Terfyn Gwariant Adrannol**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Camau Gweithredu | Teitl y Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2013-14 Alldro | 2014-15 Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | 2015-16 Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol | 2015-16 Newidiadau | 2015-16 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Cymunedau a Threchu Tlodi | Dechrau'n Deg | 11,186 | 8,000 | 2,000 | 4,950 | 6,950 |
| | | **Cyfanswm Maes Rhaglenni Gwariant/Camau Gweithredu** | **11,186** | **8,000** | **2,000** | **4,950** | **6,950** |
| | **Cyfanswm Cyfalaf** | | **11,186** | **8,000** | **2,000** | **4,950** | **6,950** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol** | | **124,766** | **133,613** | **129,413** | **3,931** | **133,344** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
# Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015 – 2016 – Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
# CYPE(4)-25-14 – Papur 5

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cynigion o ran Addysg a Sgiliau a nodir yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16, a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2014. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Cefndir

2. Mae Cyllideb Ddrafft 2015-16 yn darparu cynllun un flwyddyn ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth o ran addysg a sgiliau yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau ynghyd â'r newidiadau a wnaed i'r gyllideb ddangosol ers cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15.

**Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau - Crynodeb**

| | 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2014 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 | Newidiadau | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| DEL Adnoddau | 1,629,443 | 1,560,094 | 20,515 | 1,580,609 |
| DEL Cyfalaf | 153,834 | 173,834 | 0 | 173,834 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,783,277** | **1,733,928** | **20,515** | **1,754,443** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 252,082 | 237,862 | 62,009 | 299,871 |
| **Cyfanswm y MEG** | **2,035,359** | **1,971,790** | **82,524** | **2,054,314** |

3. O'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2014-15, mae cyfanswm y dyraniad DEL Adnoddau ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi cynyddu £20.5m (1.3%) i £1,754.4m yn 2015-16. Mae'r cynnydd o £20.5m yn cynnwys:

| | **£000** |
|---|---|
| Trosglwyddiad rheolaidd o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol – trosglwyddiad allan o'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) ar gyfer:<br>• darparu hyfforddiant proffesiynol ar gyfer Seicolegwyr Addysg (£0.54m);<br>• cefnogi'r gwasanaeth wedi'i ddiwygio a'i foderneiddio ar gyfer gweinyddu cyllid myfyrwyr (£2.5m) | 3,040 |
| Gostyngiad net i'r Prif Grŵp Gwariant – symiau a drosglwyddwyd yn ôl i Gronfeydd Wrth Gefn | -47,425 |
| Her Ysgolion Cymru – trosglwyddiad o Gronfeydd Wrth Gefn | 12,100 |

| | |
|---|---|
| Cytundeb y Gyllideb – Grant Amddifadedd Disgyblion trwy gynyddu'r grant i £1,050 y disgybl (£44m) a'i ymestyn i blant o dan 5 oed (£3.8m). | 47,800 |
| Cytundeb y Gyllideb – Prentisiaethau | 5,000 |
| **DEL Adnoddau – cynnydd net** | **20,515** |

4. Nid oes newid i'r gyllideb gyfalaf gyffredinol o £173.834m yn 2015-16. Mae hyn yn cynnwys y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £30m a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2014-15, fel rhan o hwb o £200m o gyfalaf i gyflymu'r broses o ddarparu Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif trwy estyniad i'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

5. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ymateb i'r galw ac sy'n sensitif i'r gyfradd llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly'n anodd i'w rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn a chaiff ei chyllido'n llawn. Mae'r gyllideb yn cynyddu £62.009m yn 2015-16 i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf o ran y galw.

6. Cafodd cynlluniau'r gyllideb ar lefel y Camau Gweithredu ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau eu cyhoeddi ar 30 Medi. I wella tryloywder darperir dadansoddiad o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn Atodiad 1. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae Atodiad 1 hefyd yn gynnwys manylion dyraniadau yn 2014-15 (a nodwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2014), alldroeon rhagamcanol 2014-15 ac alldroeon terfynol 2013-14. Ni fu'n bosibl cyflwyno dyraniadau dangosol ar gyfer 2016-17 fel y gofynnodd y Pwyllgor, gan nad yw cyllidebau wedi cael eu cadarnhau y tu hwnt i 2015-16 ar y cam hwn.

**Cyd-destun y Gyllideb - Blaenoriaethau**

7. Caiff y gyllideb hon ei phennu yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU mewn adolygiadau diweddar o wariant, ynghyd â'r drefn o flaenoriaethu cyllid o fewn ac ar draws portffolios, gan gynllunio ar yr un pryd i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu a chyflawni rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol. Mae'r holl benderfyniadau yr ydym yn eu hwynebu'n anodd. Nid oes atebion hawdd ac ni fu unrhyw fodd i ni allu gwarchod gwasanaethau rhag effaith toriadau Llywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu gwariant.

8. Gan adeiladu ar ein hadolygiad i reoli gostyngiadau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15, rydym wedi bod yn adolygu cyllidebau'n barhaus fesul llinell i ganfod sut y gellir rheoli gostyngiadau pellach gan barhau i adlewyrchu ein blaenoriaethau. Er bod penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud, mae ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru'n dal i fod yn ddigyfnewid ac mae'r cynlluniau gwariant a gyhoeddwyd gennym yn adlewyrchu hyn.

9. Cryfhau llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol yw ein blaenoriaethau o hyd. Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth weithredu ystod eang o ddiwygiadau megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, ac wedi cyflwyno'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Mae'r Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac Asesu hefyd yn gyfle pwysig i ystyried sut yr ydym yn gwneud y blaenoriaethau hyn yn ganolog i gyfundrefn addysg Cymru.

10. Mae *Cymwys am Oes – Cynllun Gwella Addysg ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a lansiwyd ar 2 Hydref, yn disgrifio ein gweledigaeth a'n nod ar gyfer addysg hyd at 2020. Mae'n cynnwys pedwar amcan strategol a chamau gweithredu cysylltiedig a fydd yn sicrhau ein bod yn parhau â'n siwrne wella. Yn tanategu'r amcanion strategol hyn, ac yn rhan annatod o bob un ohonynt, mae ein blaenoriaethau i wella llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol.

11. Yn erbyn cefnlen ariannol sy'n gryn her, mae ein cynllun *Cymwys am Oes* yn nodi ein hymrwymiad i resymoli grantiau addysg er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion a chonsortia, a sicrhau bod costau gweinyddol a biwrocratiaeth ddiangen yn cael eu lleihau i'r eithaf fel bod cymaint o gyllid â phosibl yn cael ei gyfeirio at y rheng flaen. Fe ysgrifennon ni at yr Awdurdodau Lleol hefyd ym mis Awst i nodi ein bwriadau i resymoli nifer o grantiau ar gyfer 2015-16. Er mwyn cefnogi hyn yn uniongyrchol, rydym yn symleiddio trefniadau cyllid grant yn 2015-16 i alluogi ysgolion i ganolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf o bwys – gwella canlyniadau addysgol i blant yng Nghymru. Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym wedi rhesymoli nifer o'r grantiau i awdurdodau lleol i greu Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion, sy'n gyfanswm o £141m, a gyflwynir mewn llinell wariant newydd, sef Y Grant Gwella Ysgolion, o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg ar gyfer 2015-16. Ceir mwy o fanylion am y grantiau sydd wedi cael eu trosglwyddo ym mharagraff 43.

12. Bydd rhaglen newydd sydd wedi'i bwriadu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol - *Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*, a lansiwyd ym mis Mehefin 2014, yn sicrhau bod yr holl blant yng Nghymru'n gallu cyrraedd eu llawn botensial ni waeth beth fo'u cefndir teuluol nac incwm eu rhieni. Bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn helpu i gyflawni'r agenda hon, trwy'r £47.8m ychwanegol a sicrhawyd fel rhan o Gytundeb y Gyllideb, i hybu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2015-16.

13. Mae'r rhaglen newydd hon a'r buddsoddiad ychwanegol yn y Grant Amddifadedd Disgyblion yn elfen allweddol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi gan Lywodraeth Cymru ac, yn hollbwysig, mae'n ymateb pwysig i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim wedi bod yn cau'n gyson dros y 3 blynedd ddiwethaf, ond mae buddsoddiad yn hanfodol bwysig i ddwyn gwelliannau parhaus.

14. Mae'r dyraniad ychwanegol o £12.1m yr ydym wedi'i sicrhau o Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Rhaglen Her Ysgolion, yn 2015-16, yn cynnig y cyfle i wneud cynnydd sylweddol o ran cyrhaeddiad dysgwyr mewn ysgolion sy'n wynebu rhai o'r heriau mwyaf. Byddwn yn asesu'r gofynion ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen i ysgolion sy'n cymryd rhan, wrth iddynt symud ymlaen trwy'r flwyddyn gyntaf. Bydd unrhyw gyllid pellach y mae ei angen hyd at yr £20m yn cael ei ystyried yn ystod blwyddyn 2015-16 ochr yn ochr â chyllidebau eraill sy'n ymateb i'r galw, o ffynonellau cyfalaf neu refeniw fel y bo'n briodol.

15. Ceir tystiolaeth o ymdrechion pellach i fynd i'r afael ag amddifadedd yn y Gyllideb Ddrafft hon trwy'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16, gyda Chynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru'n parhau ar lefel o £30 yr wythnos ym mlwyddyn

academaidd 2014/15. Rydym hefyd wedi cynnal ein cronfa 'caledi' dewisol (Cronfa Ariannol Wrth Gefn) ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2014/15.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

16. Mae gan yr Adran Addysg a Sgiliau bum amcan strategol sy'n cefnogi gwaith i gyflawni'r amcanion yn y Rhaglen Lywodraethu yr ydym wedi alinio ein gwariant â hwy:

- Codi safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru fel y gall pawb wireddu eu potensial;
- Darparu gweithlu medrus gyda chyfleoedd o ansawdd uchel i bob dysgwr a hynny'n cyfrannu at greu twf a swyddi;
- Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles trwy leihau anghydraddoldeb a chynyddu cyfranogiad;
- Gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru;
- Bod yn adran sy'n perfformio'n dda ac yn gyflogwr o ddewis.

17. Mae'r mesurau perfformiad a nodir yn ein cynllun newydd *Cymwys am Oes* hefyd yn cysylltu â dangosyddion a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt, ac mae'r penderfyniadau a wnaed yn y gyllideb ddrafft hon yn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau i fod wedi'u halinio, hyd y gellir, i gyflawni ein hymrwymiadau. Mae dadansoddiad o sut mae ein cynigion ar gyfer y gyllideb yn cyd-fynd â'r Is-Ganlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu wedi'i gyhoeddi yn nogfen y Gyllideb Ddrafft. Mae'r Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, yn darparu diweddariad ar y camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i gefnogi ein blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, i sicrhau bod canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

18. Yn y Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi ceisio diogelu ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu rhag maint y gostyngiadau yr ydym wedi'u hwynebu. Ceir crynodeb isod o newidiadau yn y grynodeb ddrafft fesul Cam Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, ynghyd â chostau a'r effaith gysylltiedig ar ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

***Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd***

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 7,036 | 6,197 | (1,685) | 4,512 |

19. Mae'r gyllideb yn cyllido ystod o ymyriadau i gefnogi'r agenda i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Mae'r gyllideb yn gostwng £1.685m yn

2015-16 o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol. Rydym yn ystyried dulliau mwy effeithiol o roi cymorth ym maes dysgu fel teulu a fydd yn ei gwneud yn bosibl defnyddio adnoddau'r gyllideb yn fwy effeithlon a gweithredu trefniadau gwell ar gyfer cyflawni strategol.

20. Nid yw'r gostyngiad mewn cyllid yn cyfateb i ostyngiad mewn ffocws ar ein blaenoriaethau i wella llythrennedd a rhifedd. Mae cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn eisoes wedi cefnogi datblygiad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a fydd yn ein helpu i gyrraedd ein nod, sef bod yr holl blant yng Nghymru'n gallu datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog.

21. Rydym wedi dyrannu £2.3m o fewn llinell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu yng Ngham Gweithredu'r Cwricwlwm yn 2015-16, i'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, a fydd yn rhoi cymorth parhaus i'r holl ysgolion yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei roi ar waith yn effeithiol. Bydd y Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion hefyd yn cynnwys o fewn ei gylch gorchwyl flaenoriaethau'r Adran, sef llythrennedd a rhifedd, ac mae'n ychwanegu'n sylweddol at y cymorth ar y cyfan a gynigir ar gyfer y sgiliau hyn mewn ysgolion.

***Cam Gweithredu'r Cwricwlwm***

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 134,268 | 116,056 | (88,150) | 27,906 |

22. Mae'r gyllideb yn gostwng £88.15m o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16. Y rheswm pennaf dros hyn yw bod grantiau'r Llwybrau Dysgu 14-19 (£4m) a'r Cyfnod Sylfaen (£98m) yn cael eu cyfuno i greu Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion o fis Ebrill 2015. Ceir mwy o fanylion am y gyfundrefn grantiau newydd, symlach ar gyfer 2015-16 dan y Cam Gweithredu Safonau Addysg ym mharagraffau 42 i 44.

23. Mae'r grant 14-19 wedi cael ei ostwng £4m cyn cael ei gyfuno â'r grantiau eraill yn y Grant Gwella Addysg newydd. Mae'r grant wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'r polisi ymwreiddio, ac mae'r gostyngiad yn y gofynion o ran arlwy'r cwricwlwm lleol yng nghyfnod allweddol 4 o 30 i 25 dewis wedi lleihau'r gofynion ariannol ar ysgolion o ran darparu cyrsiau. Ni ragwelir y bydd y gostyngiadau arfaethedig yn effeithio ar ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu y bydd ysgolion a cholegau addysg bellach yn cyflawni'r gofynion statudol o ran y cwricwlwm lleol, ac mae cyllid wedi cael ei ddiogelu i sicrhau y bydd y dysgwyr hynny a ddechreuodd eu cyrsiau ym mis Medi 2013 yn cael y cyllid angenrheidiol.

24. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i'r Cyfnod Sylfaen a'i ddull o ran addysgu a dysgu. O ganlyniad mae cyllid ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn dal i fod yn gyson â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16, gan gynnwys grant y Cyfnod Sylfaen i awdurdodau lleol o £97.8m, sydd bellach wedi'i gynnwys yn y Grant Gwella Addysg newydd.

25. Ni ddylai fod unrhyw effaith ar ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu a gwella sgiliau ymarferwyr i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, a bydd ein *Cynllun 10 mlynedd ar gyfer Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ar 22 Medi, yn helpu i sicrhau bod ymarfer yn y blynyddoedd cynnar yn gyson â'r Cyfnod Sylfaen ym mhob ysgol a lleoliad. Rydym hefyd wedi dyrannu £0.18m o fewn llinell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu yn 2015-16, i gefnogi asesiad cychwynnol newydd yn y Cyfnod Sylfaen, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2015.

26. O fewn llinell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu, mae cyllid ychwanegol o £2.8m wedi cael ei ddarparu i gefnogi'r broses o gyflwyno cymwysterau TGAU newydd, ar gyfer Cymru yn unig, mewn Saesneg, Cymraeg Iaith, Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu pecyn o adnoddau Llythrennedd Gwyddoniaeth ar gyfer gyflwyno'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2016. Bydd hefyd yn cyfrannu at ein targed i godi lefelau cyrhaeddiad ac yn cefnogi ein hymrwymiad i wella perfformiad Cymru yn nhablau PISA.

27. Mae £1m ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i linell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu i gefnogi'r broses o weithredu argymhellion adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm cenedlaethol ac asesu yng Nghymru, ac mae £2m arall wedi cael ei ddyrannu fel cyllid cyfatebol i'r cyllid a roddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi'r broses o weithredu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol.

28. Mae llinell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu hefyd yn cynnwys dyraniad o £12.1m o Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Rhaglen Her Ysgolion. Ceir mwy o wybodaeth am y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen hon ym mharagraffau 105 i 108 dan yr adran yn y papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol.

### *Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth*

| 2014-15 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol Mehefin 2014** | **Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013** | **Newidiadau** | **Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 17,849 | 17,849 | (1,893) | 15,956 |

29. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cymhwyster Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Mae'r gostyngiadau yn y cam gweithredu hwn wedi bod yn bosibl, gan gynnal ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, trwy ddatblygu model Gradd Meistr newydd. Bydd y rhaglen yn fwy hyblyg a hygyrch i'r holl ymarferwyr fel rhan o ddysgu proffesiynol gydol gyrfa. Bydd y rhaglen Gradd Meistr newydd yn dechrau o fis Medi 2016, gyda'r ymgyrch marchnata ar gyfer y rhaglen newydd yn dechrau ym mis Medi 2015.

30. Mae cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer Rhaglenni Sefydlu Athrawon Statudol a threfniadau asesu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch sy'n gyfanswm o £0.6m wedi cael ei drosglwyddo i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg ac wedi cael ei gynnwys yn y Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion.

31. Mae'r llinell wariant Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon newydd wedi cael ei sefydlu gyda £5.569m yn cael ei drosglwyddo o'r llinell wariant Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig â Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Mae hyn yn adlewyrchu newid mewn cyfrifoldeb is-adrannol am reoli polisi, rhaglenni a chyllid grant sy'n cefnogi'r broses o ddyrchafu, recriwtio a hyfforddi athrawon gan arwain at Statws Athro Cymwysedig.

### *Y Cam Gweithredu Cymwysterau*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 5,045 | 5,603 | 2,300 | 7,903 |

32. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu Bagloriaeth Cymru, a'r broses o achredu cymwysterau a gweithredu'r Adolygiad o Gymwysterau. Yn dilyn yr Adolygiad o Gymwysterau, a gyflwynodd becyn cydlynol o newid sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i symleiddio'r gyfundrefn cymwysterau yng Nghymru, rydym yn y broses o weithredu'r holl argymhellion.

33. Bydd y gyfundrefn cymwysterau newydd yr ydym yn ei datblygu'n cael ei thanategu gan Cymwysterau Cymru, ac rydym wedi dyrannu £2.3m ychwanegol yn y gyllideb hon i gyfrannu tuag at sefydlu'r corff annibynnol newydd hwn. Ceir mwy o wybodaeth am y dyraniadau yn y gyllideb ym mharagraffau 100 i 102 dan y pennawd Cymwysterau yn yr adran o'r papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol. Bydd y gyllideb yn sicrhau ein bod, trwy gydweithio gyda phartneriaid, yn gallu darparu cymwysterau o ansawdd uchel y mae pobl yn rhoi gwerth arnynt, a fydd yn cynnwys y cymwysterau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol diwygiedig a chymhwyster Bagloriaeth Cymru sy'n fwy trylwyr.

### *Cam Gweithredu Addysg Ôl-16*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 533,905 | 536,693 | (29,142) | 507,551 |

34. Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth yr awdurdodau lleol, darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, cymorth ar gyfer y ddarpariaeth mewn Sefydliadau Addysg Bellach, cymorth ar gyfer prosiectau a gweithgareddau gwella ansawdd a buddsoddiad i ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o ansawdd uchel. Mae'r gyllideb hon yn gostwng £29.1m o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16.

35. Mae'r gyllideb ar gyfer y llinell wariant Darpariaeth Addysg Bellach yn gostwng £14.1m yn 2015-16 o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae hyn

yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd o £7.5m o’r Cam Gweithredu Lles Plant a Phobl Ifanc, i ddarparu cyllid atodol mewn addysg bellach ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau dysgu a fydd yn cael ei ddosbarthu yn awr fel rhan o’r Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 yn hytrach nag fel grant ar wahân. Mae hefyd yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd o £9.9m ar gyfer Cymraeg i Oedolion i Gam Gweithredu’r Gymraeg mewn Addysg.

36. Byddwn yn amcanu at ddefnyddio’r fethodoleg cynllunio a chyllido newydd a gyflwynwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 i roi arweiniad o ran darparu rhaglenni yn y sectorau hyn a darparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr. Rydym hefyd wedi parhau i flaenoriaethu’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed yn y sector i gefnogi ein hymgyrch polisi i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Tra bo ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fod â threfniadau sy’n gwella gwaith cynllunio strategol wedi cael ei gwblhau bellach, nid ydym yn gallu rhoi trefniadau cyllido dros dair blynedd ar hyn o bryd oherwydd y dyraniad byrdymor sydd gan Lywodraeth Cymru ei hun o ran y gyllideb.

37. Mae’r llinell wariant Dysgu Seiliedig ar Waith yn gostwng £15m yn 2015-16 o’i gymharu â’r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys £5m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o Gytundeb y Gyllideb i helpu i liniaru effaith toriadau arfaethedig. O ran y Rhaglen Lywodraethu, rydym yn parhau i fuddsoddi yn y Rhaglen Recriwtiaid Newydd, trwy dargedu lleoedd ar gyfer y rhai ar brentisiaethau a rennir. Byddwn hefyd yn darparu cyllid i gefnogi prosiectau peilot sydd wedi’u bwriadu i gefnogi’r gwaith o hyrwyddo prentisiaethau; yn ogystal â darparu rhaglenni prentisiaeth a rhaglenni cyflogadwyedd ar gyfer dysgwyr 16-18 oed nad ydynt yn gyflogedig (Hyfforddeiaethau) ac oedolion 19+ nad ydynt yn gyflogedig (Barod Am Waith). Bydd y gyllideb yn cael ei blaenoriaethu i gefnogi’r rhai sydd ran o’r ffordd drwy eu rhaglenni ar 1 Ebrill 2015 ac i gefnogi cymaint â phosibl o brentisiaid ifainc newydd, yn ogystal â’r rhai sy’n dymuno dechrau Prentisiaeth Lefel Uwch. Byddwn hefyd yn amcanu at gynyddu i’r eithaf ein defnydd o gyllid Ewropeaidd i hybu ein heffaith yn y maes hwn.

### *Cam Gweithredu Addysg Uwch*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 362,697 | 360,723 | 540 | 361,263 |

38. Mae’r gyllideb ar gyfer y Cam Gweithredu Addysg Uwch wedi cynyddu o’i gymharu â’r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16 o ganlyniad i drosglwyddiad o £0.540m o’r Grant Cynnal Refeniw i gyllido’r ddarpariaeth hyfforddiant proffesiynol ar gyfer Seicolegwyr Addysg. Mae’r ddarpariaeth i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru’n dal i fod yr un fath ag yn 2014-15.

39. Bu ad-drefnu sylweddol yn Ne Orllewin a De Ddwyrain Cymru, gyda chreu sefydliad diwygiedig Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru. Mae’r adroddiad terfynol ar yr adolygiad o Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru wedi cael ei

gyhoeddi ac mae'r sefydliadau dan sylw'n ystyried argymhellion yr adroddiad. Mae hyn wedi creu nifer llai o brifysgolion cryfach yng Nghymru yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

40. Fel yr adroddwyd yn yr adroddiad ar y Rhaglen Lywodraethu yn 2013-14, mae nifer o ymrwymiadau sy'n ymwneud â llywodraethu sefydliadau addysg uwch wedi cael eu disodli gan y Bil Addysg Uwch (Cymru).

41. Ceir mwy o fanylion ynglŷn ag Addysg Uwch yn yr adran yn y papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol ym mharagraffau 142 i 145.

### *Cam Gweithredu Safonau Addysg*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 32,761 | 34,261 | 109,862 | 144,123 |

42. Mae'r gyllideb yn cynyddu £110m o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn 2015-16, yn bennaf o ganlyniad i greu cyfundrefn grantiau newydd, symlach ar gyfer 2015-16, a fydd yn arwain at fwy o hyblygrwydd ac, yn y pen draw, at ganlyniadau gwell i ddysgwyr. Er bod ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ar gyfer ysgolion ar 1% uwchlaw cyfanswm cyllideb Cymru yn dal i fod yn gadarn, rydym wedi gorfod ystyried y gallu ar gyfer gostyngiadau i rai o'n grantiau i ysgolion fel rhan o'r ymarfer ail-flaenoriaethu. Er bod y gyfundrefn grantiau newydd yn adlewyrchu'r gostyngiadau hyn, bydd hyn yn cael ei liniaru'n rhannol, trwy fwy o hyblygrwydd a lleihau baich gweinyddol prosesau adrodd a monitro'r grant newydd.

43. Mae'r grant hwn yn dwyn ynghyd nifer o ffrydiau grant presennol, gyda throsglwyddiadau o'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19 (£4m), Grant y Cyfnod Sylfaen (£97.75m), y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Sipsiwn a Theithwyr (£8m), Grant y Gymraeg mewn Addysg (£5.13m), a chyllid o'r Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth (£0.58m), sy'n cefnogi Rhaglenni Sefydlu Athrawon Statudol a threfniadau asesu ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch. Ynghyd â'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (£24.5m) a'r Grant Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol (£0.2m) sy'n trosglwyddo o linell wariant y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a chyllid Band 4 a 5 (£0.83m) sy'n trosglwyddo o'r llinell wariant Cefnogi Safonau Ysgolion, rydym yn dyrannu cyfanswm grant o £141m yn 2015-16.

44. Dylai'r gyfundrefn grantiau newydd, symlach ar gyfer 2015-16 arwain at fwy o hyblygrwydd o ran cyllido ac, yn y pen draw, at ganlyniadau gwell i'n dysgwyr. Bydd cysylltiad eglur rhyngddi a blaenoriaethau polisi a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r cynllun newydd *Cymwys am Oes*. Rydym yn gweithio nerth deg ewin ar y cynigion a bydd mwy o wybodaeth ar gael dros y misoedd nesaf.

### *Cam Gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion*

| 2014-15 Cyllideb Atodol Mehefin 2014 £000 | 2015-16 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 £000 | 2015-16 Newidiadau £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|
| 71,246 | 34,246 | 47,800 | 82,046 |

45. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2012, yn gyfle allweddol i ysgolion roi cymorth wedi'i dargedu er mwyn lleihau anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol. Cafodd y Grant Amddifadedd Disgyblion ei greu i ddechrau am gyfnod o dair blynedd tan 2014-15, ond cafodd y cyllid ei ymestyn tan 2015-16 yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15 i gydnabod pwysigrwydd y grant hwn i helpu i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

46. Rydym yn dyrannu £82.046m i gefnogi'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2015-16. Fel rhan o Gytundeb y Gyllideb mae £44m ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i gynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion presennol o £918 am bob disgybl cymwys yn 2014-15 i £1,050 yn 2015-16, a £3.8m i ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i ddisgyblion o dan 5 oed.

### *Cam Gweithredu Lles Plant a Phobl Ifanc*

| 2014-15 Cyllideb Atodol Mehefin 2014 £000 | 2015-16 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013 £000 | 2015-16 Newidiadau £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|
| 22,483 | 22,733 | (5,741) | 16,992 |

47. Mae'r gyllideb yn gostwng £5.741m yn 2015-16 oherwydd y trosglwyddiad rheolaidd o £7.5m o'r llinell wariant Lleoliadau Arbenigol a Disgyblion ag Anawsterau Dysgu i'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 a nodir ym mharagraff 35, i ddarparu cyllid atodol mewn addysg bellach ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau dysgu a fydd yn cael ei ddosbarthu yn awr fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 yn hytrach nag fel grant ar wahân. I wrthbwyso'r trosglwyddiad hwn, rydym wedi dyrannu £3m ychwanegol i'r llinell wariant i adlewyrchu'r galw ychwanegol o ran dysgwyr hyd at 25 oed ac arnynt angen darpariaeth mewn colegau arbenigol annibynnol er mwyn diwallu eu hanghenion.

48. Mae cyllid ar gyfer y llinell wariant Bwyd a Diod mewn Ysgolion wedi cael ei gadw ar yr un lefel, sef £3.2m, fel rhan o'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i barhau â'n rhaglenni llaeth ysgol am ddim i blant hyd at saith oed.

49. Mae'r llinell wariant Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion wedi cael ei gostwng £0.42m wrth i ni ystyried cynigion ar gyfer datblygu darpariaeth gwnsela ar gyfer plant yn y cyfnod cynradd. Mae cyllid i ddarparu gwasanaeth cwnsela gan awdurdodau lleol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ym Mlwyddyn 6 a rhwng 11 a 18

oed wedi cael ei danategu gan ddeddfwriaeth ers mis Ebrill 2013, a chafodd £4.5m ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2013-14 i gefnogi'r gwasanaeth hwn.

50. Roedd y Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i ddiwygio'r broses ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion ac Addysg Bellach. Rydym wedi dyrannu £2.2m i'r llinell wariant Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2015-16, a fydd yn caniatáu cyllid digonol i hwyluso'r gwaith sy'n ofynnol i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru).

### *Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 320,096 | 308,561 | 4,550 | 313,111 |

51. Mae'r gyllideb ar gyfer llinell wariant Grant Dysgu'r Cynulliad wedi cynyddu £4.05m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol i £190.92m. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen gymorth statudol i fyfyrwyr sy'n ymateb i'r galw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau Wedi'u Targedu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Fe ddywedon ni yn y Rhaglen Lywodraethu y byddem yn cynnal ein hymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr o'r aelwydydd â'r incwm isaf ac rydym yn gwneud hyn trwy gadw lefel gyffredinol y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer cymorth i ddysgwyr ôl-16 yn yr adran yn y papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol ym mharagraffau 138 i 141.

52. Mae'r gyllideb ar gyfer llinell wariant Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cynyddu £2.5m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16 o ganlyniad i drosglwyddiad o'r Grant Cynnal Refeniw yn dilyn moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn yr adran yn y papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol ym mharagraffau 157 i 158.

53. Mae'r gyllideb ar gyfer Dyfarndaliadau Wedi'u Targedu'n gostwng £2.0m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16. Mae'r gyllideb yn cefnogi Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr sydd mewn angen gwirioneddol. Ar gyfer 2015/16, rydym yn diogelu'r cronfeydd ariannol wrth gefn ar gyfer addysg bellach, ond rydym wedi penderfynu atal cynllun y gronfa wrth gefn ddewisol ar gyfer addysg uwch. Canfu adolygiad annibynnol Oldbell3 o gronfeydd ariannol wrth gefn fod y myfyrwyr a oedd yn gallu cael mynediad at gymorth statudol llawn trwy grantiau a benthyciadau fel arfer yn cael eu cyllido'n ddigonol. Fodd bynnag roedd y cronfeydd ariannol wrth gefn yn galluogi sefydliadau i fod yn hyblyg ac ymateb i amgylchiadau eithriadol. Gan fod yr incwm sydd ar gael i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n cynyddu gyda'r newid yn y gyfundrefn ffioedd, rydym yn gweithio gyda'r sector ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i ganfod sut y gall prifysgolion gefnogi eu myfyrwyr agored i niwed.

### *Cam Gweithredu Ennyn Diddordeb Disgyblion*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|
| 12,258 | 12,758 | (12,100) | 658 |

54. Mae'r gyllideb yn gostwng £12.1m o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16, o ganlyniad i gynigion y bydd y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr yn cael eu cyfuno a'u trosglwyddo i'r Grant Gwella Addysg mwy ar gyfer ysgolion o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg. Mae'r gyllideb ar gyfer 2015-16 yn gwneud darpariaeth dybiannol o £8m ar gyfer y ffrwd gyllido newydd hon. Mae hyn yn dal i fod yn gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr a bydd awdurdodau lleol yn dal yn gallu ategu'r cyllid hwn ag adnodd ychwanegol o'r Grant Cynnal Refeniw.

55. Er na fydd yn bosibl mwyach i lefelau cyllido ar gyfer y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig gael ei gynnal ar £10m, mae trosglwyddo'r cyllid yn gyfle i ailfeddwl am ein dull o gefnogi'r dysgwyr hyn. Rydym yn dymuno gweithio gydag Awdurdodau Lleol a'r Consortia Gwella Ysgolion rhanbarthol i ddatblygu dull newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n fwy cost-effeithiol, wedi'i dargedu'n well, yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, yn llai biwrocrataidd ac yn caniatáu llawer mwy o hunanbenderfynu. Trwy wneud hyn, bydd anghenion plant sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn dal i gael eu diwallu a bydd cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu sy'n gysylltiedig â chefndir ethnig lleiafrifol yn dal i gael sylw trwy bolisi ac arfer gwella ysgolion.

56. Mae newidiadau i'r gyfundrefn gyllido'n cael eu rheoli trwy gyd-drafod â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ystyried sut i ad-drefnu gwasanaethau i ddiogelu'r elfennau pwysicaf o ran y ddarpariaeth a darparu cymorth ar gyfer y dysgwyr hynny y mae arnynt fwyaf o'i angen.

57. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda grŵp ymarferwyr Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yr Awdurdodau Lleol (MEALA) ac yn bwriadu cael trafodaethau pellach gyda hwy cyn gweithredu'r trefniadau newydd yn 2015-16. Yn hanfodol i'r trafodaethau hyn bydd yr angen i ddatblygu fframwaith canlyniadau effeithiol a chadarn ar gyfer disgyblion ethnig lleiafrifol o fewn y ffrwd gyllido newydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion y dysgwyr hyn yn dal i fod yn faes blaenoriaeth a bod awdurdodau lleol yn dal i fod yn atebol am ddarparu gwasanaeth effeithiol ac wedi'i dargedu i gefnogi eu haddysg.

### *Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg*

| 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15,462 | 14,462 | 4,137 | 18,599 |

58. Mae Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg yn cynyddu £4m o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2015-16, ond mae hyn yn bennaf oherwydd dau drosglwyddiad rheolaidd;

- £9.867m o'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 i gyllido Cymraeg i Oedolion er mwyn lliflinio prosesau ar gyfer y sector;
- £5.13m o'r hyn sy'n weddill o Grant y Gymraeg mewn Addysg i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg, i greu'r Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion.

59. Felly bu gostyngiad ar y cyfan o £0.6m yng nghyllidebau'r Gymraeg mewn Addysg, sy'n deillio'n bennaf o'r gostyngiad o £0.5m mewn cyllid ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg cyn ei drosglwyddo i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg. Ceir gostyngiadau minimol mewn cyllidebau comisiynu adnoddau, cynllunio ac ymchwil, cyfathrebu a marchnata o fewn y Cam Gweithredu, y maent i gyd yn cyfrannu tuag at ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac i geisio cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ein cyfundrefn addysg.

**Gwariant Ataliol**

60. O fewn y portffolio Addysg a Sgiliau rydym yn neilltuo adnoddau sylweddol i feysydd o wariant ataliol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Bydd y rhaglenni ymyrryd-yn-gynnar hyn yn effeithio ar blentyn yn gynnar yn ei broses ddysgu ac yn rhoi sylfeini cadarn i'r plentyn ar gyfer ei addysg barhaus a fydd yn eu tro'n gwella'i obeithion yn y farchnad lafur.

61. Mae *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2013 yn cydnabod bod buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar trwy addysg yn cael dylanwad sylweddol ar ddatblygiad plentyn. Ceir cytundeb cyffredinol bod profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn hanfodol bwysig i ddatblygiad hirdymor plant a'r hyn y maent yn ei gyflawni yn hwyrach yn eu bywyd. Dyna pam ein bod yn parhau i ddiogelu ein buddsoddiad mewn rhaglenni megis y Cyfnod Sylfaen i gefnogi'r blynyddoedd cynnar, er bod y mwyafrif o'r cyllid sy'n gyfanswm o £97.8m bellach yn cael ei gyfeirio trwy'r grant cyfunol newydd i ysgolion. Trwy ddarparu cwricwlwm statudol ar gyfer yr holl blant 3 i 7 oed, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i gyfeirio at sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd gan eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial a chymryd eu lle yn llawn mewn cymdeithas.

62. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ymyriad allweddol o ran atal tlodi, ac mae'n darparu cyllid yn uniongyrchol ar gyfer ysgolion er mwyn iddynt ei fuddsoddi mewn ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad plant. Trwy'r £47.8m ychwanegol ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2015-16, a sicrhawyd fel rhan o Gytundeb y Gyllideb, rydym yn canolbwyntio ar gyrraedd targedau allweddol a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi gan gynnwys gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant o dan 5 oed, cyfanswm o £3.8m, yn sicrhau bod gan y dysgwyr mwyaf difreintiedig fynediad at addysg o ansawdd uchel yn eu blynyddoedd cynnar.

63. O fewn y Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd, sy’n gyfanswm o £4.5m ar gyfer 2015-16, mae’r cyllid a ddarperir ar gyfer y profion darllen a rhifedd cenedlaethol wedi’i fwriadu’n benodol i lywio a chefnogi camau gweithredu ataliol ac ymyriadau cynnar mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Gan fod y rhain yn sgiliau bywyd allweddol, a bod diffyg sgiliau digonol yn rhwystro plant rhag cyrraedd eu llawn botensial, mae’r holl wariant ar brofion ynddo’i hun yn ataliol. Bydd darparu cyllid o £2.3m ar gyfer y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn 2015-16, a gyllidir o Gam Gweithredu’r Cwricwlwm, hefyd yn cefnogi ysgolion i gynyddu cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd yn gynnar, gan felly atal yr angen am raglenni ymyrryd.

64. Ystyrir bod y Grant Gwella Addysg newydd i ysgolion sy’n gyfanswm o £141m yn ataliol, ac mae’n cyfuno cyllid grant ar gyfer nifer o feysydd gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a’r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig.

65. Ystyrir bod ein gwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy’n cynnwys buddsoddiad o bron i £1.4bn ar y cyfan, yn ataliol gyda buddsoddiadau’n cael eu targedu at yr ysgolion hynny sydd yn y cyflwr gwaethaf ac yn cael eu defnyddio’n aneffeithlon. Yn yr hirdymor bydd cyllid i godi ysgolion newydd ac/neu adnewyddu adeiladau ysgolion yn gostwng costau gwaith cynnal a chadw ôl-gronedig, a chostau cynnal a chadw a chostau rhedeg refeniw yn y dyfodol trwy resymoli’r ystâd ysgolion.

66. Mae lleihau’r anghydraddoldeb mewn canlyniadau addysgol rhwng gwahanol grwpiau’n un o’r prif amcanion y mae angen i ni eu cyflawni er mwyn llwyddo, yn y tymor canolig a hir, i godi plant a phobl ifanc allan o dlodi, lleihau’r tebygolrwydd y byddant yn dod yn rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant neu’n dod yn rhan o’r gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac i roi’r cyfle gorau iddynt gael canlyniadau gwell o ran iechyd ac yn eu bywyd. Mae’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a gyllidir o’r Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc ac atebolrwydd gwahanol asiantaethau, gan felly gryfhau a chyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc.

**Deddfwriaeth**

67. Mae’r gyllideb hon yn dal i gymryd ein rhaglen ddeddfwriaethol bresennol i ystyriaeth. Mae atodiad sy’n nodi’r costau ar gyfer 2015-16, sy’n gysylltiedig â deddfwriaeth a gyflwynwyd yn flaenorol a chostau disgwyliedig deddfwriaeth ddrafft (lle mae Biliau wedi cael eu cyflwyno i’r Cynulliad), wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â naratif y Gyllideb Ddrafft. Mae diweddariad mwy manwl ar gostau ein rhaglen ddeddfwriaethol sy’n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn wedi’i ddarparu isod.

***Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013***

68. Cafodd y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013. Fel rhan o’r broses o’i gweithredu, yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14 cafodd cyllid o £21.8m ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a brecwast mewn ysgolion ei drosglwyddo i’r Grant Cynnal Refeniw o fewn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol o 2013-14 ymlaen. Mae’r cyllid hwn yn dal i fod yn rhan o’r dyraniad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2015-16.

69. Dan y Ddeddf, mae awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a daeth Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn statudol o fis Ebrill

2014. Bydd y broses o weithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dal i gael ei chefnogi trwy gyllid ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg sydd wedi cael ei drosglwyddo i'r Grant Gwella Addysg cyfunol sengl newydd ar gyfer ysgolion o 2015-16 .

### *Deddf Addysg (Cymru) 2014*

70. Mae'r Ddeddf Addysg (Cymru) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014, yn ailenwi ac yn ad-drefnu'r corff cofrestru presennol, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) i greu Cyngor y Gweithlu Addysg, mae'n ymestyn y gofynion o ran cofrestru, cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu addysg, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion yng Nghymru.

71. Y bwriad yw mabwysiadu dull graddol ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg ehangach, gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn dod yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Mae'r ymgynghoriad ar *Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru* yn rhedeg tan 7 Tachwedd 2014. Bydd y rheoliadau'n ymorol am flwyddyn drosiannol yn 2015-16, gyda'r model ffioedd terfynol yn weithredol ar gyfer cofrestru ym mis Ebrill 2016.

72. O 1 Ebrill 2015, bydd yn ofynnol i athrawon Addysg Bellach gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Yn y flwyddyn gyntaf yn unig, mae cymhorthdal ar gyfer athrawon Addysg Bellach wedi cael ei gynnig y bydd angen £0.180m ychwanegol ar ei gyfer yn 2015-16, gyda chostau'n cael eu talu o'r Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth. Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn parhau i fod yn gorff hunangyllidol.

73. Elfen olaf y Bil yw safoni dyddiadau tymhorau ysgolion, sy'n golygu costau staff minimol o £0.031m dros ddwy flynedd (tan 2015-16) yn ôl yr amcangyfrifon, a fydd yn cael eu talu o gyllideb costau rhedeg yr Adran Addysg a Sgiliau.

### *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*

74. Cafodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Mae'r Ddeddf yn dileu nifer o gyfyngiadau a rheolaethau ar sefydliadau addysg bellach. Nid oes disgwyl y bydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn 2015-16 er mwyn gweithredu'r darpariaethau newydd. Bydd newidiadau y mae gofyn eu gwneud i ganllawiau, gan gynnwys diweddaru'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Memorandwm Ariannol yn cael eu rheoli gan swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau ac felly'n cael eu cyllido o gyllideb costau rhedeg bresennol yr adran.

### *Y Bil Addysg Uwch (Cymru)*

75. Cyhoeddwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Addysg Uwch (Cymru) ar 19 Mai 2014 ac roedd yn nodi costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r opsiwn a ffafrir i ddiwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i alluogi rheoleiddio effeithiol. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o £0.172m yn 2015-16. Fodd bynnag, costau staff yw'r mwyafrif o'r costau, a fydd yn cael eu talu o gyllideb costau rhedeg yr adran, gan adael costau rhaglen ychwanegol o £0.035m.

76. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn dod o'r ddarpariaeth bresennol o fewn y Cam Gweithredu Addysg Uwch, ac felly ni chynigir unrhyw ostyngiadau yn y Cam Gweithredu hwn yn 2015-16.

### *Y Bil Cymwysterau (Cymru)*

77. Ymdrinnir â'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r *Bil Cymwysterau (Cymru)* ym mharagraff 102 dan y pennawd Cymwysterau yn yr adran yn y papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol.

### *Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)*

78. Daeth yr ymarfer ymgynghori ar y Papur Gwyn i ben ar 25 Gorffennaf a chafwyd 215 o ymatebion. Nes y bydd yr ymatebion wedi cael eu dadansoddi ni allwn ddweud â sicrwydd y byddwn yn canlyn arni â'r holl gynigion yn union fel a ragwelir yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yn cael eu talu o adnoddau presennol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau, ac felly mae'n bosibl y bydd angen ail-flaenoriaethu cyllidebau unwaith y bydd y costau wedi'u mesur.

79. Yn niffyg arian ychwanegol, rydym wedi comisiynu adolygiad i asesu swm y cyllid ar gyfer AAA sydd yn y system ar hyn o bryd. Bydd hyn yn helpu i lywio datblygiad ffyrdd arloesol a chost-effeithiol o ddarparu cymorth ar gyfer dysgwyr ag AAA fel rhan o'r diwygiadau. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu defnyddio hefyd i ddatblygu ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2015.

80. Ymhlith pethau eraill, bydd y cynigion yn cynnwys trosglwyddo cyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau i awdurdodau lleol trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd y darpariaethau wedi'u cynnwys yn wreiddiol yn y Bil Addysg (Cymru) ond cawsant eu tynnu allan yn ddiweddarach. I roi cyfrif am y galw cynyddol am Leoliadau Arbenigol rydym wedi dyrannu £3m ychwanegol i'r Cam Gweithredu Lles Plant a Phobl Ifanc yn 2015-16. Fodd bynnag nid yw hyn yn arwydd o unrhyw ddyraniad cyllid yn y dyfodol, a fydd yn cael ei drafod ymhellach cyn y trosglwyddiad i'r Grant Cynnal Refeniw (nad yw i fod i ddigwydd tan 2017-18).

### *Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)*

81. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ar hyn o bryd yn cynnwys costau bras iawn sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach. Cred Llywodraeth Cymru y byddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn elwa o fwy o fanylion ynglŷn â rhai o'r costau a gyfrifwyd i wella cadernid yr wybodaeth ariannol a ddarparwyd. Er hynny, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo'n llawn ar hyn o bryd ac felly pe bai'r Bil yn dod yn ddeddf byddai'n rhaid ail-flaenoriaethu'r costau hyn o gyllidebau presennol.

82. Mae diweddariad ar oblygiadau ariannol y *Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)* i'r Adran Addysg a Sgiliau wedi'i gynnwys ym mharagraffau 109 i 110, dan y manylion ynglŷn ag addysg ariannol yn yr adran yn y papur hwn sy'n ymdrin â meysydd penodol.

### *Deddfwriaeth y DU*

83. Rydym hefyd yn rhan o fonitro nifer o Filiau ar lefel y DU, y mae gennym ni fel Adran fuddiant penodol ynddynt neu a allai effeithio'n anuniongyrchol ar ein cylch gorchwyl. Mae'r rhain yn cynnwys; Y Bil Dadreoleiddio; Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth; Y Bil Addysg (Rhannu Gwybodaeth); Y Bil Hawliau Defnyddwyr; Y Bil Taliadau Gofal Plant a'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda San Steffan i ddeall y goblygiadau i'r Adran, gan gynnwys yr effaith gyllidebol lawn, os bydd un. Fodd bynnag, ar y cam hwn, rhagwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol, os bydd rhai o gwbl, yn isel iawn ac y bydd modd eu talu o ddarpariaeth bresennol y Prif Grŵp Gwariant os bydd angen.

### *Is-ddeddfwriaeth a Mesurau blaenorol*

84. Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol o ran cost i'r gyllideb Addysg a Sgiliau yn 2015-16 o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth, gan y bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'n cael eu talu o gyllideb costau rhedeg bresennol yr adran. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y portffolio o ganlyniad i Fesur Dysgu a Sgiliau Cymru 2009. Ar hyn o bryd mae'r holl ysgolion a cholegau addysg bellach yn ateb gofynion y Mesur. Yn gynharach eleni cafodd Rheoliadau Dysgu a Sgiliau Cymru eu diwygio, gan leihau'r dewisiadau ar gyfer dysgwyr CA4 o 30 i 25 dewis gyda'r nifer galwedigaethol o fewn y ffigwr hwn yn gostwng o 5 i 3 – daeth y newid hwn i rym o fis Medi 2014.

### Ystyriaethau trawsbynciol

85. Mae ystyriaethau o ran cydraddoldeb wedi bod yn ganolog i ddatblygu ein cynlluniau gwariant. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â naratif y gyllideb ddrafft ar 30 Medi.

86. Mae asesiad effaith eleni'n ystyried y cyfraniad cadarnhaol y gall ein penderfyniadau gwario ei wneud tuag at greu cymdeithas decach, ac mae nid yn unig yn cynnwys yr effaith o ran cydraddoldeb y mae ein penderfyniadau gwario'n ei chael ar y naw nodwedd warchodedig ond mae hefyd yn ystyried yr effeithiau ar yr Iaith Gymraeg, Hawliau'r Plentyn, a Threchu Tlodi, y maent oll wedi'u halinio dan ymbarél lles, fel y nodir ym *Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*. Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, trwy ystyried buddsoddiadau y gallwn eu gwneud yn awr i atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

87. Dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2015-16 ac ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau wedi cael ei gyhoeddi ar wahân, ond mae'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig, ac yn ystyried pob effaith, gan gynnwys hawliau plant, mewn ffordd integredig.

88. Un enghraifft o benderfyniadau y dylanwadwyd arnynt gan y ffactorau yn yr asesiad effaith yw'r cyllid ychwanegol o £3m yr ydym wedi'i ddyrannu i'r llinell wariant Lleoliadau Arbenigol/Myfyrwyr ag Anawsterau Dysgu, sydd wedi'i gyfeirio at leoliadau arbenigol ar gyfer dysgwyr hyd at 25 oed ac arnynt angen darpariaeth arbenigol er mwyn cael mynediad at addysg bellach sy'n addas i'w hanghenion asesedig.

**Meysydd Penodol**

89. Mae'r adran hon yn darparu diweddariad ar feysydd penodol yn unol â chais y Pwyllgor.

***Diogelu cyllidebau ysgolion ar 1%***

90. Mae diogelu gwariant rheng-flaen mewn ysgolion yn dal i fod yn flaenoriaeth a thrwy gydol cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol rydym wedi diogelu'r cyllid i ysgolion ar lefel sydd 1% yn uwch na'r newidiadau i DEL Cymru ar y cyfan. Er mwyn darparu mwy o dryloywder o ran sut y cyflawnir yr ymrwymiad hwn, mae Atodiad sy'n egluro'r modd y caiff cyllidebau ysgolion eu diogelu wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r naratif hwn ar y Gyllideb Ddrafft.

91. O ran diogelu cyllidebau ysgolion, cyfrifwyd hyn ar sail diogelu'r cyllid i ysgolion ar lefel sydd 1% yn uwch na'r twf blynyddol cyfartalog yn DEL Cymru dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant. Roedd y twf blynyddol cyfartalog yn DEL Adnoddau Cymru rhwng 2010-11 a 2015-16 yn gynnydd o 0.02%, sy'n cyfateb i dwf blynyddol cyfartalog i gyllidebau ysgolion o 1.02%. Mae hyn yn golygu, dros y cyfnod hwn, ein bod wedi darparu buddsoddiad ychwanegol o £105.9m ar gyfer ysgolion.

92. Rydym wedi diogelu'r cyllidebau trwy nifer o wahanol ffrydiau cyllido, gan gynnwys y Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol a chyllidebau o fewn y portffolio Addysg a Sgiliau. O ganlyniad, mae'r buddsoddiad ychwanegol i ysgolion o £105.9m yn cynnwys £72m o'r Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol a £33.9m sy'n dod o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau.

93. Mae'r cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion, gan gynnwys y £47.8m ychwanegol yn 2015-16, y tu hwnt i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ysgolion ar lefel sydd 1% yn uwch na'r newidiadau ar y cyfan i gyllideb Cymru dros y cyfnod hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cyllid grant ar wahân yn unol â'r trefniadau ar gyfer pob grant unigol.

94. Mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol, trwy'r datganiadau monitro, yn dangos bod eu gwariant wedi'i gyllidebu ar ysgolion yn cynyddu yn unol â'r elfen cyllid Llywodraeth Leol o ddiogelu ar lefel o 1% (ffigwr net ar ôl didynnu grantiau penodol ac ystyried addasiadau mewn niferoedd disgyblion). Mae'r data monitro a gafwyd gan Awdurdodau Lleol hyd at 2014-15 yn dangos bod yr holl Awdurdodau Lleol naill ai wedi cwrdd â'r ymrwymiad 1% neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

95. Er bod y cyfrifoldeb am ddiogelu cyllidebau ysgolion o fewn y Grant Cynnal Refeniw yn gorwedd gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth gynt), mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn dal i weithio gyda swyddogion llywodraeth leol i drafod canlyniadau data monitro awdurdodau lleol, a chyda CLlLC i ddeall yr effaith bosibl ar addysg, ysgolion, a gwasanaethau ehangach cynghorau.

***Grant Amddifadedd Disgyblion***

96. Mae Ipsos Mori a WISERD wedi cael eu penodi i gynnal gwerthusiad parhaus o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sut y mae'n cael ei ddehongli a'i weithredu, a pha effaith y mae'n ei chael ar berfformiad disgyblion ac arfer mewn ysgolion. Mae'r

ymgynghorwyr wedi cyflwyno'u hadroddiad drafft ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Mae tair prif elfen i'r gwerthusiad: arolwg o 201 o ysgolion a gwblhawyd yng ngwanwyn 2014; astudiaethau achos manwl ymhlith 22 o ysgolion; a dadansoddiad manwl o gyrhaeddiad a data absenoldeb disgyblion o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Disgwylir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.

97. Mae Syr Alasdair MacDonald wedi cael ei benodi hefyd yn Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' o ran sut i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, ac i adrodd ar ganfyddiadau o ran pa mor dda y mae'r sector wedi ymgysylltu â'r agenda hon, ble y gwelwyd arfer rhagorol a ble y ceir canfyddiad am 'rwystrau' yn y system neu sefyllfaoedd lle mae hyn yn bodoli go iawn. Mae adroddiad cyntaf Syr Alasdair wedi dod i law ac mae ei ganfyddiadau'n cael eu hystyried ochr yn ochr ag adroddiad drafft Ipsos Mori a WISERD ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

98. Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddatganoli i ysgolion trwy'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn seiliedig ar nifer y disgyblion cymwys ym mhob ysgol. Mae nifer o drefniadau ar waith i fonitro'r modd y defnyddir cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion, gan gynnwys y canlynol:

- Mae'n ofynnol i Gonsortia ddarparu adroddiadau ar y prif bwyntiau ym mis Medi sy'n ymdrin â pherfformiad ysgolion o ran cyrraedd y targedau a nodwyd yng nghynlluniau'r ysgolion.
- Mae gan Ymgynghorwyr Her y Consortia orchwyl i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod yr arian grant yn cael ei ddefnyddio'n briodol.
- Pan fo'r Consortia'n cyflwyno'u hawliadau cyntaf ym mis Hydref mae'n ofynnol iddynt ddarparu mwy o wybodaeth am allbynnau targed hyd yma.
- Mae'n ofynnol darparu adroddiad gwerthuso ym mis Chwefror ar y gweithgareddau a gefnogwyd gan y grant a ddylai gynnwys dadansoddiad o'r modd y mae gwariant wedi effeithio ar ganlyniadau addysgol a datganiad eglur ar y prif wersi a ddysgwyd. Gall yr adroddiadau hyn ddod i law yn hwyrach os nad yw'r data ar gael i ysgolion mewn pryd ar gyfer yr adroddiad gwerthuso.

99. Fel y Gweinidog Addysg a Sgiliau, fe ysgrifennais at ysgolion ac awdurdodau lleol ym mis Ionawr i'w hysbysu y gellir adennill arian os oes tystiolaeth eglur nad ydynt wedi gwario arian y Grant Amddifadedd Ysgolion yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal ymarfer i fonitro derbynyddion y grant o safbwynt ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae atebolrwydd wedi cael ei gryfhau ymhellach trwy'r broses arolygu, gyda mwy o bwyslais ar asesu pa mor dda y mae ysgolion yn cefnogi disgyblion agored i niwed, a sut y maent yn defnyddio adnoddau megis y Grant Amddifadedd Disgyblion.

### *Cymwysterau Cymru*

100. Mae darpariaeth yn y gyllideb o £7.903m wedi cael ei dyrannu ar gyfer cymwysterau yn 2015-16, i dalu am y broses barhaus o weithredu'r Adolygiad o Gymwysterau a sefydlu Cymwysterau Cymru.

101. Mae'r gyllideb ar gyfer parhau yn 2015-16 i weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau (heblaw am argymhelliad 5, sefydlu Cymwysterau Cymru) yn £0.2m. Mae'r ddarpariaeth hon yn talu am raglen gyflawni'r Adolygiad o Gymwysterau a chostau cyfathrebu yn unig. Mae argymhellion yr Adolygiad hefyd yn effeithio ar

rannau eraill o'r Adran Addysg a Sgiliau, yn ogystal ag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Nid yw'n bosibl rhoi ffigwr torfol ar gyfer costau gweithredu'r holl argymhellion, gan fod yr argymhellion wedi dylanwadu ar ddatblygiad parhaus polisïau a chymwysterau, ac y byddant i raddau helaeth wedi trosglwyddo i fusnes fel arfer erbyn hanner cyntaf 2015-16.

102. O fewn y Cam Gweithredu Cymwysterau rydym wedi dyrannu £2.3m ychwanegol yn 2015-16 ar gyfer y costau sefydlu sy'n gysylltiedig â Cymwysterau Cymru. Bydd y dadansoddiad terfynol o gostau'n cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan fydd y *Bil Cymwysterau (Cymru)* yn cael ei gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2014. Rhagwelir trosglwyddiad pellach o'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r Cam Gweithredu Cymwysterau, a fydd yn cael ei weithredu fel rhan o Gyllideb Atodol yn 2015-16, i roi cyfrif am aelodau o staff Llywodraeth Cymru a fydd yn trosglwyddo i'r corff newydd o 1 Medi 2015.

### *Y Cwricwlwm*

103. O fewn y Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd, ceir darpariaeth o £0.2m yn 2015-16 i gefnogi'r broses o weithredu Cam 1 o'r adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu. Rydym yn cymryd camau i gryfhau ymhellach y modd yr addysgir Cymraeg, Saesneg a mathemateg gyda rhaglenni astudio diwygiedig. Mae'r Meysydd Dysgu a'r Rhaglen Astudio i fod i gael eu cyhoeddi ar 17 Hydref 2014, ochr yn ochr â chanllawiau a rhaglen dreigl o gymorth yn barod ar gyfer y broses weithredu statudol, gyda'r rhaglenni astudio'n cael eu haddysgu gyntaf ym mis Medi 2015.

104. Mewn perthynas â cham 2 o'r adolygiad, nid yw'r Athro Donaldson i fod i gwblhau ei adroddiad ar y cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu yng Nghymru tan droad y flwyddyn. Ar y cam hwn, felly, nid yw'n briodol nac yn bosibl rhagfynegi'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw argymhellion. Fodd bynnag, mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr adolygiad hwn, mae cyllid ychwanegol o £1m wedi cael ei glustnodi yn llinell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu yng Ngham Gweithredu'r Cwricwlwm i gefnogi'r gwaith cwmpasu cychwynnol i weithredu'r argymhellion, yn amodol ar ein hymateb i'r adolygiad hwn.

### *Her Ysgolion Cymru*

105. Cafodd oddeutu £12.1m o becyn o gymorth hyd at £20m a gyhoeddwyd ar gyfer Rhaglen Her Ysgolion Cymru ei nodi gan y Gweinidog Cyllid, fel rhan o'n hymateb i Ddatganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU, ac fe'i trosglwyddwyd i Addysg a Sgiliau yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2014-15. O ran y £7.9m sy'n weddill, rydym ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellid defnyddio ein portffolio i roi cymorth i gyflawni'r rhaglen, ochr yn ochr â rheoli blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn sy'n cystadlu â'i gilydd a gweithredu gostyngiadau yn ystod y flwyddyn.

106. Gofynnwyd i Ysgolion Llwybrau Llwyddiant Her Ysgolion Cymru gyflwyno'u cynlluniau datblygu ysgol erbyn diwedd mis Mehefin ac mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. O'r cynlluniau a gyflwynwyd, mae'n amlwg bod ar rai ysgolion o fewn y rhaglen angen ymyriad cyfalaf hefyd, ac felly rydym hefyd yn archwilio, ar gais yr ysgolion, yr opsiwn i ddefnyddio ein cyllideb gyfalaf fel rhan o weddill o £7.9m, i'w gwneud yn bosibl datblygu cynigion buddsoddi.

107. Unwaith y bydd y 40 cynllun Llwybrau Llwyddiant wedi cael eu cwblhau, byddwn mewn sefyllfa i gadarnhau o ble y bydd cyllid i gefnogi'r broses o gyflawni'r rhaglen Her Ysgolion Cymru'n cael ei sicrhau. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn Ail Gyllideb Atodol 2014-2015.

108. Mae £12.1m o gyllid wedi cael eu sicrhau o Gronfeydd Wrth Gefn yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16 i barhau â rhaglen Her Ysgolion Cymru yn 2015-16. Fel y nodwyd ym mharagraff 14, byddwn yn asesu'r gofynion ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen ar gyfer ysgolion sy'n cymryd rhan, wrth iddynt symud ymlaen trwy'r flwyddyn gyntaf. Bydd unrhyw gyllid pellach sy'n ofynnol hyd at yr £20m yn cael ei reoli yn ystod 2015-16 ochr yn ochr â chyllidebau eraill sy'n ymateb i'r galw, o ffynonellau cyfalaf neu refeniw fel y bo'n briodol.

### *Addysg ariannol*

109. Mae addysg ariannol eisoes yn cael ei darparu mewn ysgolion ac wedi bod yn cael ei darparu ers 2008 yn y cwricwla mathemateg ac ABCh. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a ddaeth yn statudol ym mis Medi 2014, yn cynnwys sgiliau ariannol penodol, er enghraifft 'Rheoli Arian'. Mae gwaith i addysgu a dysgu'r sgiliau hyn yn cael ei gefnogi gan gonsortia addysg rhanbarthol a'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, sy'n dal i gael ei chyllido o linell wariant Y Cwricwlwm ac Asesu.

110. Nid Bil a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yw'r *Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)*, a hyd yma, nid oes darpariaeth o fewn rhaglen Llywodraeth Cymru i'w gyllido. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ar hyn o bryd yn cynnwys costau bras iawn sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil, ac mae'n mynd trwy broses graffu ar hyn o bryd i asesu effaith ariannol lawn – gan gynnwys costau cyfle – y Bil arfaethedig hwn ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae tri cham deddfwriaethol i fynd drwyddynt yn gyntaf, a rhaid i ni gael eglurder o ran y budd a gynigir gan y Bil arfaethedig hwn cyn bod cyllidebau'n cael eu hailgyfeirio o wasanaethau addysg hollbwysig i'w gyllido.

### *Cyllid cyfalaf ar gyfer gwelliannau i adeiladau ysgolion*

111. Mae darpariaeth yn y gyllideb o £130.831m o fewn y llinell wariant Buddsoddi Strategol yng Ngham Gweithredu'r Ystâd a'r Ddarpariaeth TG yn cefnogi'r broses o gyflawni ein rhaglen flaenllaw, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ystod 2015-16. Mae'r rhaglen yn cynrychioli buddsoddiad o £1.4 biliwn dros gyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben yn 2018-19. Bydd ardaloedd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn elwa o'r rhaglen bwysig hon i wella ysgolion, a fydd yn arwain at ailadeiladu ac adnewyddu 150 o ysgolion a cholegau ledled Cymru.

112. Caiff y rhaglen ei chyllido 50% gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio cyfuniad o gyllid cyfalaf a refeniw (tua £530 miliwn o gyllid cyfalaf a £170 miliwn o gyllid refeniw ar ffurf benthyca â chymorth), gyda'r 50% o gyllid sy'n weddill yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol neu golegau.

113. Mae ystyried gallu'r Awdurdod Lleol i ddarparu cyllid cyfatebol yn elfen allweddol o'n proses graffu. Mae'r holl brosiectau'n cael eu cymeradwyo yn amodol ar gael Achos Busnes boddhaol, y mae'n rhaid iddo ddangos bod cyllid cyfatebol ar gael ac egluro o ba ffynonellau y daw'r cyllid. Mae'r ystyriaeth hon yn unol â gofynion y dull Achos Busnes Gwell, lle mae'n rhaid i bob prosiect ddarparu gwybodaeth strategol,

economaidd, fasnachol, ariannol a rheoli i sicrhau bod unrhyw brosiect a gyllidir wedi'i alinio ag amcanion y Llywodraeth, yn rhoi gwerth am arian, ac yn hyfyw o safbwynt masnachol, yn ogystal â bod yn fforddiadwy ac yn un y gellir ei gyflawni.

### *Datblygiad Proffesiynol Parhaus Athrawon*

114. Mae'r datganiad ar 10 Mehefin 2014 yn gwneud ymrwymiad i sefydlu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel fel rhan o brofiad proffesiynol pob ymarferydd. Yn ymarferol, darperir hyn ar lefel ysgolion gyda chymorth consortia. Gan hynny, mae'r model cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol yn nodi'r hyn y mae llawer o ysgolion eisoes yn ei wneud trwy'r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu i ddatblygu eu staff. Yr her yw ennyn ymgysylltiad yr holl ysgolion fel eu bod yn rhannu'r ymrwymiad hwn.

115. Bydd rheoliadau'n cael eu cyflwyno yn yr hydref a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol fod â Chynllun Datblygu Ysgol (CDY) a fydd yn cynnwys sut y maent yn cynllunio i ddatblygu eu holl staff. I rai ysgolion bydd hyn yn newid diwylliannol o ddibyniaeth draddodiadol ar gyrsiau 'unigol' drud, a ddarperir yn allanol ac nad ydynt yn cael llawer o effaith ar wella arfer yn yr ystafell ddosbarth i fwy o ddefnydd o ddatblygiad cydweithredol mewn ysgolion a rhwng ysgolion megis arsylwi, coetsio a mentora a datblygu arweinyddiaeth flaengar.

116. Nid yw cyflawni'r newid diwylliannol hwn ynddo'i hun yn galw am gyllid ychwanegol ond mae'n dibynnu ar wneud defnydd mwy effeithiol o'r cyllid presennol a ddarperir ar gyfer ysgolion trwy ffynonellau megis y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg newydd, ynghyd â ffynonellau eraill megis y Rhaglen Gymorth Genedlaethol a Her Ysgolion Cymru. Mae angen i bob ysgol fod wedi'i hargyhoeddi ei bod yn targedu ei hadnoddau at y gweithgareddau datblygiad proffesiynol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar arfer yn yr ystafell ddosbarth a gwella safonau.

### *Newid strwythurol o ran darparu gwasanaethau addysg*

117. Galwodd Robert Hill yn ei adroddiad *Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol* am gynyddu hyblygrwydd ariannol a lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion, yn enwedig i'r rhai sy'n perfformio'n dda. Mae gwaith arwyddocaol wedi cael ei wneud yn barod gan yr Adran Addysg a Sgiliau i resymoli cyllid grant mewn blynyddoedd blaenorol, a bydd y penderfyniad i drosglwyddo nifer o grantiau pellach i greu Grant Gwella Addysg trosfwaol sy'n gyfanswm o £141m yn helpu i weithredu argymhellion Robert Hill.

118. Bydd adolygiad Robert Hill yn helpu i lunio rhaglen diwygio addysg Cymru, ac mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yng Nghymru, a ddaeth yn weithredol o fis Ebrill 2014, yn rhan annatod o hynny. Mae'n darparu dull gwella ysgolion sy'n ymwneud â chymorth rhwng ysgolion, sy'n seiliedig ar ethos partneriaeth gyda'r nod o greu system sy'n hunanwella. Mae llywodraeth leol wedi rhoi ei hymrwymiad i ddiogelu cyllid gwella ysgolion yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer llywodraeth leol i gefnogi'r Model Cenedlaethol, sy'n disodli'r cynnig yn Adolygiad Hill, i gyllido gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol trwy drosglwyddiad allan o'r Grant Cynnal Refeniw.

119. Bydd y Cynllun Braenaru ar gyfer Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol yn rhoi cymorth i ysgolion ac arweinwyr ysgolion ddysgu oddi wrth ei gilydd, gan ddarparu'r conglfeini ar gyfer gwaith cydweithredol, cymorth rhwng ysgolion a gwella ysgolion ar y cyfan. Rydym yn defnyddio'r gwaith hwn i godi

safonau, ac i lywio'r broses o rannu arfer da o ran sut y mae ysgolion yn dysgu oddi wrth ei gilydd i danategu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Rhanbarthol Gwella Ysgolion a datblygiad Her Ysgolion Cymru i ddatblygu trefniadau ledled Cymru. Mae cyllid o £0.2m wedi cael ei drosglwyddo i'r Grant Gwella Addysg newydd o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg yn 2015-16 i barhau â'r cymorth hwn i ysgolion.

120. Mae oddeutu £0.025m yn cael ei ddyrannu o'r llinell wariant Datblygu a Chefnogi Athrawon yn y Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn 2015-16.

### *Addysg Cyfrwng Cymraeg*

121. Mae Cam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg sy'n gyfanswm o £18.6m yn 2015-16 yn darparu cymorth i barhau i weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a bydd cyllidebau'n cael eu blaenoriaethu i feysydd lle gellir cyflawni'r budd mwyaf.

122. Mae cyllidebau eraill o fewn y portffolio Addysg a Sgiliau sy'n cefnogi'r broses o weithredu'r Strategaeth yn cynnwys cyllid i'r canlynol:

- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o fewn y llinell wariant Er Mwyn Ein Dyfodol yn y Cam Gweithredu Addysg Uwch, gyda dyraniad dangosol o £8.6m ar gyfer 2015-16;
- Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith Cyfrwng Cymraeg o fewn y llinell wariant Dysgu Seiliedig ar Waith yn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16;
- Cam wrth Gam, rhaglen hyfforddi i ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda chyllid o £1.7m wedi'i ddyrannu o linell wariant y Cyfnod Sylfaen o fewn Cam Gweithredu'r Cwricwlwm yn 2015-16.

123. Bydd y broses o weithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dal i gael ei chefnogi trwy drosglwyddo cyllid sy'n gyfanswm o £5.13m ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg i mewn i'r Grant Gwella Ysgolion newydd i ysgolion yn 2015-16.

### *Addysg bellach*

Uno

124. Mae prosesau uno'n sbardun polisi allweddol ac yn fodd i sicrhau mwy o effeithiolrwydd strategol a chost-effeithlonrwydd. Mae disgwyl i enillion effeithlonrwydd sy'n deillio o brosesau uno fod yn sylweddol ac mae'r Adran Addysg a Sgiliau'n disgwyl i'r sefydliadau ail-fuddsoddi'r symiau hyn er budd dysgwyr, busnesau a'r gymuned leol. Fodd bynnag, gall costau cychwynnol proses uno fod yn sylweddol oherwydd ad-drefnu, uno systemau, staffio a marchnata.

125. Mae ein polisi Trawsnewid wedi ysgogi a chefnogi nifer o brosesau uno rhwng sefydliadau addysg bellach ledled Cymru. Arweiniodd prosesau uno a gwblhawyd yn 2014 at ostyngiad o 20 sefydliad yn 2009 i 9[1], gan gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ysgogi achosion pellach o uno colegau addysg bellach.

---

[1] Nid yw'r data'n cynnwys Coleg Merthyr Tudful, ar ôl mis Mai 2006 fe unodd gyda Phrifysgol Morgannwg a sefydliadau dynodedig YMCA, Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant, WEA Cymru. O 2013/14, nid yw'r data'n cynnwys Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr ychwaith, yn dilyn y broses uno gyda Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, sydd bellach ill dau'n sefydliadau dynodedig. Mae hyn yn gyson â'r dadansoddiad yn Adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen Annibynnol ar Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru.

126. Mae pob proses uno wedi adnabod arbedion yn eu priod Achosion Busnes. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl uno, mae sefydliadau addysg bellach wedi tueddu i adrodd ar gyflawniadau cychwynnol yn y byrdymor sydd, gan mwyaf, wedi bod yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ac arbedion ariannol a fydd yn effeithio yn y pen draw ar brif nod y broses uno; gwireddu ac ailgyfeirio buddion i ganlyniadau a datblygiad dysgwyr, ansawdd, a mynediad.

127. Mewn llawer o achosion mae'r arbedion yn ymwneud â rhesymoli rheolwyr canol ac uwch reolwyr a staff cymorth busnes yn ogystal â rhoi systemau ar waith, gan gynnwys systemau cymorth TG, caffael, a chyllid a gweinyddu ar draws sefydliad ehangach gan ymorol am beidio â phenodi pobl yn lle staff cefn swyddfa ac arbedion trwy golli staff yn naturiol.

128. Mae uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl i greu Coleg Cambria wedi dwyn arbedion sylweddol mewn gwariant ac mae hefyd wedi sicrhau bod incwm masnachol yn cael ei gynyddu'n well. Adroddwyd ar arbedion effeithlonrwydd o £1.140m ers y broses uno trwy ostyngiad mewn costau cyflogau a chostau eraill. Mae arbedion nad ydynt yn ymwneud â chyflogau wedi cael eu sicrhau trwy resymoli swyddogaethau cefn swyddfa, ffioedd proffesiynol is a darbodion maint trwy gaffael. Bydd Coleg Cambria'n dal i gynyddu enillion effeithlonrwydd i'r eithaf i sicrhau bod y Coleg yn dal i fod mewn sefyllfa ariannol gref a fydd yn ei gwneud yn bosibl buddsoddi yn yr ystâd ac mewn technolegau newydd i greu amgylchedd dysgu ysbrydoledig. Mae enillion effeithlonrwydd pellach yn yr arfaeth o fewn y rhagolwg ariannol a fydd yn sicrhau bod cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd yn uwch nag £1.5m.

129. Mae Coleg Sir Gâr wedi adrodd ar arbedion o £1m. Mae hyn yn cynnwys arbedion o £0.340m mewn perthynas â threfniadau breinio ar gyfer addysg uwch, tra bo Coleg y Cymoedd wedi adnabod arbedion o £0.101m yn y flwyddyn gyntaf y mae wedi bod yn weithredol. Mae Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot wedi dynodi arbediad o £0.630m ar gyfer 2013/14 ac yn rhagfynegi £1.7m ychwanegol ar gyfer 2014/15.

130. O ystyried y gorwel tair blynedd ar gyfer gwerthusiad llawn, ni fydd tystiolaeth o lawer o fuddion y prosesau uno, gan gynnwys y rhai ar gyfer Coleg y Cymoedd; Grŵp Castell-nedd Port Talbot; Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant; a Choleg Cambria ar gael tan 2016-17.

<u>Dyraniadau i Sefydliadau Addysg Bellach</u>

131. Yn 2014-15 cafodd dyraniadau i sefydliadau addysg bellach eu gostwng yn ôl lefelau'r ddarpariaeth ran-amser a gynigir a chafodd y cyllid ar gyfer yr holl ddarpariaeth ran-amser mewn colegau addysg bellach ei gostwng 37.5 y cant. Fodd bynnag, er mwyn lleihau effaith y gostyngiad ar gyfer dysgu rhan-amser ôl-19 mewn sefydliadau addysg bellach, fe ddyrannon ni £12.5m o'r llinell wariant Cyflogaeth a Sgiliau fel cyflwyniad i'r Rhaglen Blaenoriaeth Sgiliau. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ac mae wedi'i fwriadu i gefnogi dysgwyr cyflogedig rhan-amser.

132. O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol hwn, roedd yn bosibl cyfyngu ar y gostyngiadau mewn dyraniadau fel bod y gostyngiad mwyaf i unrhyw goleg, Coleg Ceredigion, yn 2.92%. Cyfanswm y dyraniad ar y cyfan i sefydliadau addysg bellach yn 2014/15 yw £305.078m, sy'n ostyngiad o 1.60% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

133. Rydym wedi gweithio'n helaeth gyda phob sector a oedd yn wynebu gostyngiad mewn cyllid. Sefydlwyd gweithgorau gyda Chyfarwyddwyr Cyllid i drafod y gostyngiadau a sut i leihau'r effaith ar ddysgwyr. Yn yr un modd cyfarfu swyddogion gydag Uwch Reolwyr Cwricwlwm i rannu arfer gorau wrth ddarparu rhaglenni dysgu ar gyfer dysgwyr.

134. Mae Uwch Swyddogion o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr bwrdd Colegau Cymru wedi cyfarfod hefyd i gytuno ar ddulliau i leihau effaith y dyraniadau yn 2014-15. Disgwylir dull cydweithio tebyg unwaith y bydd cyllideb ddrafft 2015-16 wedi cael ei phennu'n derfynol.

<u>Darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed</u>

135. Rydym wedi casglu cynlluniau cychwynnol gan bob coleg sy'n dangos bod niferoedd y dysgwyr llawn-amser wedi parhau'n gyson â blynyddoedd blaenorol. O ystyried y bydd y mwyafrif o ddysgwyr 16-18 oed yn dilyn rhaglenni llawn-amser mae hyn yn rhoi arwydd da bod dysgwyr 16-18 oed wedi cael eu blaenoriaethu ac felly wedi cael eu diogelu rhag unrhyw ostyngiadau.

136. Mae darpariaeth ran-amser wedi'i chynllunio'n adlewyrchu'r gostyngiad o 37.5% gyda nifer yr oriau rhan-amser wedi'u cynllunio'n gostwng yn sylweddol. Fodd bynnag, ymddengys fod unrhyw ostyngiad mewn oriau rhan-amser cyffredinol wedi cael ei negyddu trwy gyflwyno'r cyllid ychwanegol o £12.5m a ddyrannwyd i'r Rhaglen Blaenoriaeth Sgiliau. Mae manylebau'r rhaglen hon yn golygu bod yn rhaid i ddysgu rhan-amser fod â mwy o ffocws ar anghenion sgiliau'r dysgwr cyflogedig, gyda'r nod o wella cyfleoedd gyrfa y mae cyflogwyr yn eu hadnabod.

137. Ni ellir cynnal dadansoddiad llawn o effaith y gostyngiadau yn 2014-15 nes bod y ddarpariaeth yn dechrau yn 2014/15 a bod swyddogion yn gallu monitro'r ddarpariaeth wirioneddol.

### *Addysg uwch*

<u>Cymorth i fyfyrwyr Ôl-16</u>

138. Rydym wedi dyrannu £190.9m i linell wariant Grant Dysgu'r Cynulliad o fewn y Cam Gweithredu Cymorth i ddysgwyr Ôl-16, sy'n rhoi cymorth gyda Grantiau Dysgu'r Cynulliad a Lwfansau Cynhaliaeth Addysg, sy'n gynnydd o'i gymharu â chyllidebau 2014-15 o £4m.

139. Mae rhewi lefelau cymhwyster grantiau'n mynd ran o'r ffordd tuag at sicrhau y bydd cymorth yn dal i fod yn fforddiadwy o fewn y cynlluniau a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y grant ac effaith ddisgwyliedig codi'r cap ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr disgwylir y bydd cynnydd yn y galw, ac mae cyllideb ychwanegol wedi cael ei dyrannu.

140. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod costau byw'n ystyriaeth allweddol i fyfyrwyr ac mewn cyfnod o gyni ac yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu rydym yn cynnal lefel gyffredinol y cymorth a gynigir i'n myfyrwyr. Mae hyn yn golygu bod Cymru'n dal i fod â'r gyfundrefn cymorth grant ar sail prawf moddion fwyaf hael o blith yr holl weinyddiaethau yn y DU.

141. Rydym yn cynnal cyllid ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar lefel o £30 yr wythnos i fyfyrwyr cymwys ym mlwyddyn academaidd 2014/15. Mae Llywodraeth

Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, a fydd yn ystyried pa mor effeithiol fu'r Cynllun a pha un a ellir targedu'r cyllid yn well. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar 23 Hydref a byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer darparu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng ngoleuni ei ganfyddiadau a'i argymhellion.

Refeniw Addysg Uwch


142. O fewn y llinell wariant Refeniw Addysg Uwch yn y Cam Gweithredu Addysg Uwch rydym wedi dyrannu £330.7m i gyllido Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae hyn yn gynnydd o £0.54m o'i gymharu â 2014-15 i adlewyrchu'r trosglwyddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Seicolegwyr Addysg.

143. Hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd bresennol a chyda phwysau sylweddol ar gyllid y llywodraeth a chyllidebau gostyngol yn y sector cyhoeddus, mae incwm ar gyfer y sector addysg uwch yn ei gyfanrwydd yng Nghymru'n dal i fod yn gryf a rhagwelir y bydd yn cynyddu dros amser. Roedd y cylchlythyrau cyllid a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n dangos codiadau blynyddol rhagolygol mewn incwm ar gyfer y sector (o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a ffioedd dysgu) o 13.8% yn 2013 ac 11.1% yn 2014. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd incwm yn parhau i gynyddu am weddill oes y Llywodraeth hon.

144. Mae hefyd yn bwysig nodi bod mwy o fyfyrwyr yn dod i mewn i Gymru o rannau eraill o'r DU nag sy'n symud yn y cyfeiriad arall. O ganlyniad, mae sefydliadau yng Nghymru'n cael symiau uwch o incwm ffioedd gan y myfyrwyr hynny nag y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n eu talu mewn grantiau ffioedd i sefydliadau y tu allan i Gymru.

145. Yn unol ag amcangyfrifon blaenorol o incwm i'r sector addysg uwch, mae'r graff canlynol yn nodi'r incwm rhagamcanol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o 2012-13 tan ddiwedd tymor y Llywodraeth yn 2016-17. Mae'r tybiaethau canlynol wedi'u cynnwys yn y modelau:

- bydd dyraniad Llywodraeth Cymru i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n gwastatáu o 2015-16 ond bydd ffioedd dysgu'n cynyddu yn unol â chwyddiant
- bydd llifoedd ar draws y ffin a'r gweithgarwch recriwtio myfyrwyr yn parhau ar y lefelau presennol.



Grant Ffioedd Dysgu

146. Caiff y polisi cyllid myfyrwyr ei danategu gan fodel ariannol soffistigedig sy'n cymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth ariannol bresennol a neilltuwyd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn ogystal â ffynonellau eraill ar gyfer incwm sefydliadol megis ffioedd dysgu.

147. Caiff rhagolygon eu hadolygu'n rheolaidd wrth i ddata newydd neu fwy cadarn ddod ar gael. Caiff rhagolygon wedi'u diweddaru eu cynhyrchu gan y tîm dadansoddi yn Is-adran Addysg Uwch yr Adran Addysg a Sgiliau ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am ymddygiad myfyrwyr, tueddiadau demograffig, cyfraddau hawlio, ffactorau economaidd-gymdeithasol a data perthnasol arall yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Caiff y data, ffactorau macro-economaidd a thybiaethau diwygiedig eu rhoi i mewn i'r model ad-daliadau benthyciadau i fyfyrwyr, sy'n cynhyrchu rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

148. Mae'r tablau canlynol yn dangos y newidiadau a wnaed i'r model ystadegol trwy gymharu'r allbynnau ar gyfer y grant ffioedd dysgu ym modelau 2013 a 2014.

v210_9k (Ebrill 2013) *£ miliynau*

| | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant (£miliynau) | Cymreig mewn SAU eraill yn y DU | 42.2 | 63.1 | 76.8 | 82.8 |
| | Cymreig mewn SAU yng Nghymru | 79.3 | 115.4 | 136.2 | 142.6 |
| | UE mewn SAU yng Nghymru | 6.8 | 10.0 | 11.8 | 12.4 |
| | *Cyfanswm* | *128.3* | *188.4* | *224.8* | *237.7* |


v215_9k (Ebrill 2014) *£ miliynau*

| | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant (£miliynau) | Cymreig mewn SAU eraill yn y DU | 47.9 | 73.5 | 90.8 | 98.4 |
| | Cymreig mewn SAU yng Nghymru | 79.2 | 113.8 | 133.3 | 139.4 |
| | UE mewn SAU yng Nghymru | 6.7 | 9.7 | 11.4 | 11.9 |
| | *Cyfanswm* | *133.7* | *197.1* | *235.5* | *249.7* |

Gwahaniaethau *£ miliynau*

| | | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant (£miliynau) | Cymreig mewn SAU eraill yn y DU | 5.6 | 10.4 | 13.9 | 15.6 |
| | Cymreig mewn SAU yng Nghymru | -0.2 | -1.5 | -2.9 | -3.2 |
| | UE mewn SAU yng Nghymru | 0.0 | -0.2 | -0.4 | -0.5 |
| | *Cyfanswm* | *5.4* | *8.6* | *10.7* | *12.0* |

149. I ddangos y newidiadau a wnaed ers cyhoeddi'r polisi ffioedd dysgu yn 2010, mae'r graff canlynol yn nodi'r amcangyfrifon a wnaed ym mhob blwyddyn ariannol o 2013-14 tan 2016-17. Mae hyn yn cadarnhau, er bod cost ragamcanol y polisi grant ffioedd dysgu wedi cynyddu ers 2013, bod y costau yn dal i fod ymhell islaw'r amcangyfrif a luniwyd yn 2011 a 2012.




150. Y prif sbardunau ar gyfer y newid o'i gymharu â rhagolygon blaenorol yw:

- cynnydd yn niferoedd y disgyblion
- newid mewn llifoedd dros y ffin.

151. Mae niferoedd myfyrwyr yn cael eu diweddaru'n flynyddol, gan ddefnyddio data HESA. Mae'r rhain yn darparu niferoedd 'gwirioneddol' y myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf (2012/13 ar hyn o bryd) ac mae'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn cael eu haddasu'n unol â hynny. Mae data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o fewn y model yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol hefyd. Mae hyn yn darparu'r data gwirioneddol ynghylch gwariant yn ogystal â chyfraddau hawlio. Fel gydag unrhyw ddiweddariadau eraill, mae'r data gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf yn effeithio ar y rhagolygon ar gyfer blynyddoedd dilynol.

152. Mae ffioedd dysgu cyfartalog yn cael eu diweddaru'n flynyddol, gan ddefnyddio data gan y cyrff perthnasol ar gyfer pob gwlad yn y DU. Defnyddir ffynonellau data eraill, megis Gwybodaeth Reoli UCAS a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, i fonitro unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn. Os yw'r data hwn yn dynodi unrhyw wahaniaeth mawr o'i gymharu â'r rhagolygon (er enghraifft mewn cyfraddau hawlio, neu yn niferoedd y myfyrwyr) mae addasiadau i'r model yn cael eu hystyried gan y Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr ac, os cytunir ar hynny, gellir diweddaru'r model i ystyried y newid hwn .

Cyllid ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

153. Roedd y cylch cyllidebu diwethaf yn ystyried goblygiadau posibl cyflwyno newid i'r fframwaith rheoleiddiol a'i effaith ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. O ganlyniad i'r ystyriaethau hyn roedd y Cyngor mewn sefyllfa unigryw yn yr ystyr nad oedd yn ddarostyngedig i'r gostyngiad sylweddol yn y gyllideb costau rhedeg a brofwyd gan nifer o gyrff eraill a noddir yng Nghymru. Arbedodd hyn tua £0.330m i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dros 2 flynedd (yn seiliedig ar arbediad effeithlonrwydd o 6%).

154. Rydym wedi diogelu cyllideb costau rhedeg Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o £2.8m er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor adnoddau staffio digonol i gyflawni'r swyddogaethau newydd a gynigir yn y *Bil Addysg Uwch (Cymru)*. Mae disgwyl i'r llwythi gwaith presennol o fewn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf ac mae nifer o dasgau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni ar hyn o bryd na fyddant yn angenrheidiol mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Disgwylir y bydd rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n newid o un sy'n ymwneud yn bennaf â chyllido i un sy'n ymwneud â rheoleiddio ac y bydd yn adleoli ei adnoddau'n unol â hynny.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

155. O fewn y llinell wariant Er Mwyn Ein Dyfodol o fewn y Cam Gweithredu Addysg Uwch, mae cyllideb o £8.6m wedi cael ei darparu o fewn dyraniad dros dro Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2015-16, gyda £0.330m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i gefnogi Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg.

156. Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru orchwyl yn 2013-14 i gynnal gwerthusiad o ganlyniad gweithgareddau'r Coleg, gan gynnwys adolygiad o'r cyllid a ddarperir ar gyfer y Coleg. Mae'r adolygiad hwn, sy'n cael ei gyflawni gan Oldbell3, wedi dechrau, ac adroddwyd arno ar ddiwedd mis Medi 2014. Byddwn yn ystyried y canfyddiadau cyn penderfynu'n derfynol ar y cwmpas cyllido ar gyfer 2015-16 a thu hwnt.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

157. Caiff y gyllideb i ddarparu'r cymhorthdal ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr ei dyrannu o'r llinell wariant Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Cynhaliaeth o £106.849 o fewn y Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16.

158. Caiff y cyllid ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ei ddarparu o linell wariant Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau EM o fewn y Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16, ac rydym wedi dyrannu £8.4m yn 2015-16. Mae hyn yn gynnydd o £2.5m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16 o ganlyniad i drosglwyddiad o'r Grant Cynnal Refeniw yn dilyn moderneiddio Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr bellach yn darparu cyngor, arweiniad a'r broses ymgeisio ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr. Roedd hyn yn cael ei wneud yn flaenorol gan Awdurdodau Lleol. Mae'r costau moderneiddio wedi cael eu cyfuno â'r cyllid craidd yn dilyn cymeradwyo achos busnes a oedd yn nodi dyluniad y gwasanaeth wedi'i foderneiddio.

**Crynodeb**

159. Cyflwynir y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2015-16 i'r Pwyllgor ei hystyried.